# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Meeting Venue:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Meeting date:
**Dydd Iau, 13 Mawrth 2014**

Meeting time:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

For further information please contact:
**Sarah Beasley**
Committee Clerk
029 2089 8032
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (9:00-9:15)**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Ymchwiliad i Lyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: sesiwn dystiolaeth - y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (9:15-10:15) (Tudalennau 1 - 6)

John Griffiths AC, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Linda Tomos, Cyfarwyddwr CyMAL
Huw Evans, Tîm Datblygu Llyfrgelloedd CyMAL

**Egwyl (10:15-10:30)**

### 3 Sesiwn graffu ar Fasnachu Pobl - y Gweinidog Llywodraeth Leol a

**Busnes y Llywodraeth (10:30-11:30)** (Tudalennau 7 - 62)
Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Stephen Chapman, Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl

## 4 Papurau i'w nodi (Tudalennau 63 - 83)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn: 6 a 7 a'r cyfarfod ar 19 Mawrth 2014

## 6 Y Bil Tai (Cymru): trafod Adroddiad Cyfnod 1 (11:30-12:30)

**Cinio (12:30-13:00)**

## 7 Y Bil Tai (Cymru): trafod Adroddiad Cyfnod 1 (13:00-14:00)

**Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar gyfer y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Mawrth 2014 – Ymchwiliad i Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru**

## Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw nodi'r dystiolaeth ysgrifenedig ar waith Llywodraeth Cymru drwy CyMAL: isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru o ran llunio a chyflwyno'r strategaeth genedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd Cymru. Mae'n cynnwys y berthynas rhwng CyMAL a sefydliadau eraill, a rôl statudol y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

## Y Cefndir

2. Mae llyfrgelloedd yn rhan bwysig a gwerthfawr o fywyd a chymunedau Cymru. Mae gwasanaethau llyfrgell yn rhan o bob agwedd ar fywyd - llyfrgelloedd cyhoeddus cymunedol, iechyd, ysgolion, llyfrgelloedd addysg bellach ac uwch, llyfrgelloedd yn y gweithle ac mewn carchardai a llyfrgelloedd y llywodraeth. Gwnaeth Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus 1850 alluogi awdurdodau lleol i sefydlu llyfrgelloedd am ddim am y tro cyntaf a dechreuodd cynghorau Cymru sefydlu gwasanaethau llyfrgell lleol o 1861. Erbyn hyn mae tua 280 o lyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru, ynghyd â llyfrgelloedd teithiol, gwasanaethau i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi ac e-wasanaethau dros y rhyngrwyd. Mae darparu llyfrgelloedd cyhoeddus yn ddarostyngedig i Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 sy'n gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Yn 2011/2012 cafodd llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru dros 14 miliwn o ymweliadau. Oherwydd rhagor o fuddsoddi gan Lywodraeth Cymru, gwelwyd cynnydd o 11% yn nifer y bobl sy'n defnyddio llyfrgelloedd yng Nghymru ers 2002, o'i gymharu â dirywiad o 4% yng ngweddill y DU. Dangosodd arolwg ledled y DU gan Carnegie Trust yn 2012 fod 37% o Gymry yn meddwl bod llyfrgelloedd yn rhan annatod o'u cymunedau. Dyma'r ganran uchaf yn y DU.

3. Mae pob sefydliad addysg bellach ac uwch yng Nghymru yn darparu llyfrgelloedd a chanolfannau adnoddau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog pob math o lyfrgelloedd i sefydlu partneriaethau rhanbarthol sydd, er enghraifft, yn galluogi aelodau llyfrgelloedd Cymru i gael mynediad i lyfrgelloedd addysg uwch a chael llyfrau wedi'u hanfon i'w llyfrgell leol. Mae’r rhain yn cynnwys cynllun Linc y Gogledd yn y gogledd, gwasanaeth Books4U yn y de-ddwyrain a chynllun SWAMP yn y de-orllewin a'r canolbarth. Mae'r partneriaethau hefyd yn darparu hyfforddiant rhanbarthol ac yn rhannu arferion gorau mewn meysydd proffesiynol gan gynnwys llythrennedd gwybodaeth a rheoli gwybodaeth ddigidol.

4. Ym 1907, cafodd y Llyfrgell Genedlaethol ei Siarter Frenhinol fel un o 6 o lyfrgelloedd hawlfraint y DU, sy'n caniatáu iddi gael copi o lyfrau a gyhoeddwyd yn y DU. Ymestynnwyd yr hawl hon i e-gyhoeddiadau yn 2013. Erbyn hyn, mae'r Llyfrgell ar flaen y gad ym maes rheoli a darparu gwybodaeth ddigidol i lyfrgelloedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys proses gaffael genedlaethol ar gyfer e-adnoddau sydd wedi creu arbedion gwirioneddol i wasanaethau llyfrgell Cymru a'i gwneud yn bosibl i bawb ledled Cymru gael

mynediad iddynt.

5. Ers 2004, drwy CyMAL, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd agwedd strategol tuag at ddatblygu gwasanaethau llyfrgell mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau eraill yn y sector. Buddsoddwyd mwy na £20m er mwyn gwella llyfrgelloedd lleol, cyflwyno gwasanaethau digidol cenedlaethol a chynllun hyfforddi cenedlaethol ac annog partneriaethau rhanbarthol.

**Rôl Statudol y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon**

6. Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 sy'n rheoleiddio gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus cynhwysfawr ac effeithlon. Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon sy'n goruchwylio'r gwasanaethau llyfrgell a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gyntaf yn 2002. O dan y Ddeddf honno, mae gan y Gweinidog hawl i gynnal ymchwiliad os bernir bod awdurdod lleol yn methu yn ei ddyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon. Yn y pen draw, gall y Gweinidog gymryd cyfrifoldeb am redeg gwasanaethau'r llyfrgell os nad yw gwelliannau'n cael eu gwneud.

7. Ledled y DU, nid oes traddodiad o ymyrryd gan ddefnyddio pwerau statudol y Llywodraeth o dan ddeddfwriaeth. Yr awdurdod lleol sydd â'r brif ddyletswydd am sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon. Yr agwedd yng Nghymru yw y dylid gweithio gydag awdurdodau lleol i wella meysydd a nodir fel rhai gwan gan broses asesu flynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r strategaeth genedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd hefyd yn ddull pwysig o sicrhau gwelliannau drwy gydweithredu a rhannu arferion gorau.

**Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru**

8. Mae'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn goruchwylio'r gwasanaethau llyfrgell a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy Fframwaith Safonau ac Asesu Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Nid yw'n fframwaith statudol ond mae'n gweithredu fel canllaw i'r Gweinidog wrth iddo gyflawni ei rôl statudol. Cymru yw'r unig wlad yn y DU i lunio fframwaith cadarn a chlir ar gyfer gwella perfformiad llyfrgelloedd cyhoeddus. Caiff ei adolygu'n gyson a'i ddefnyddio'n barhaus.

9. Amcan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yw gwella ansawdd a safon y gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus i bobl Cymru. Bydd y pumed Fframwaith Safonau ac Asesu Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, sy'n para tair blynedd, yn dechrau ar 1 Ebrill 2014. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol wedi helpu i lunio'r fframwaith hwn ac mae'n symud tuag at fodel sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Mae'n ofynnol i wasanaethau llyfrgell ymgynghori â'u defnyddwyr o dan y Fframwaith hwn. Mae'n cydnabod sefyllfa ariannol anodd awdurdodau lleol, ond mae'n parhau i ganolbwyntio ar ansawdd wrth asesu perfformiad gwasanaethau llyfrgell yn erbyn eu dyletswyddau statudol.

10. Bob blwyddyn mae pob gwasanaeth llyfrgell yn cyflwyno Datganiad Blynyddol ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r datganiad hwn yn asesu perfformiad y gwasanaeth yn erbyn y Safonau a'r Dangosyddion ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae panel sy'n cynnwys aseswyr o'r maes llywodraeth leol ac arbenigwyr eraill yn ystyried

perfformiad y gwasanaethau. Yna, mae adroddiad blynyddol yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob awdurdod lleol a'i rhoi ar wefan CyMAL. Nid yw Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn pennu sut y dylai awdurdodau ddarparu gwasanaeth, ond yn hytrach mae'n pennu'r canlyniadau y dylid eu cyflawni. Mae'r adborth a geir yn yr Adroddiadau Blynyddol yn adlewyrchu'r cyd-destun penodol o fewn pob awdurdod llyfrgell.

**Rôl Is-adran CyMAL**

11. Sefydlwyd is-adran CyMAL fis Ebrill 2004 gan Lywodraeth Cymru i lunio polisi ar ddatblygiad strategol amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd Cymru. Yn 2007, daeth CyMAL yn gyfrifol am noddi'r Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru. Mae'r rhan fwyaf o staff yr is-adran yn bobl broffesiynol ym maes y sector. Yn 2005, lluniwyd y strategaeth genedlaethol gyntaf erioed ar gyfer llyfrgelloedd yn y DU gan CyMAL mewn cydweithrediad â'r sector llyfrgelloedd. Lansiwyd y strategaeth gyfredol, *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, yn 2012 a bydd wedi'i chwblhau erbyn 2016. Y gyllideb ar gyfer cyflwyno strategaeth genedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd yn 2013/2014 yw refeniw o £0.9m a chyfalaf o £1m.

**Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli**

12. Lluniwyd y strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* ar ôl proses ymgynghori lawn ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth gynhwysfawr. Mae *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* yn nodi sut mae'r sector llyfrgelloedd yn cyfrannu at gyflawni amcanion strategol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r prif ddangosydd mewn perthynas â llyfrgelloedd yn ymwneud â nifer yr ymwelwyr. Mae'r adroddiad cynnydd hefyd yn nodi nifer y llyfrgelloedd a gafodd eu hadnewyddu fel rhan o'r rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol. Yn ogystal â hynny, mae llyfrgelloedd yn gwneud cyfraniadau amlwg i feysydd cyflenwi pwysig eraill ar gyfer dysgu gydol oes, cynhwysiant cymdeithasol, tlodi, iechyd, datblygiadau digidol a chefnogi diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg. I fynd i'r afael â heriau'r hinsawdd economaidd bresennol, mae *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* yn annog y sector i arloesi a chwilio am ddulliau newydd o gydweithredu, a gwneud y gorau o gyfleoedd sy'n deillio o dechnoleg newydd. Y prif amcanion yw:

- cydweithio i adolygu modelau cyfredol o ran darparu gwasanaethau mewn ymateb i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, a llunio modelau arloesol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau
- annog gweithio mewn partneriaeth wrth gaffael a gwella mynediad at adnoddau, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein newydd fel e-lyfrau ac e-gylchgronau
- moderneiddio adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus i ddiwallu anghenion newidiol eu defnyddwyr
- gwneud y gorau o gyfraniad llyfrgelloedd wrth ddatblygu sgiliau pobl er mwyn helpu pawb i gyrraedd eu potensial, gwella cydraddoldeb a gwella lles economaidd a chymdeithasol
- buddsoddi mewn datblygu sgiliau staff llyfrgelloedd
- cyflwyno rhaglen datblygu cynulleidfaoedd gydlynol ar draws Cymru i gyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau
- sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu drwy fentrau fel Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

13. Darperir y strategaeth drwy gynllun cyflawni blynyddol sy'n amlinellu targedau

perfformiad allweddol a chamau gweithredu penodol ar gyfer CyMAL a'r sector wrth iddynt weithio mewn partneriaeth. Cynhelir gwerthusiad allanol pan fydd y strategaeth wedi'i chwblhau. Daeth gwerthusiad annibynnol o'r strategaeth flaenorol, Llyfrgelloedd am Oes 2008-2011, i'r casgliad fod y strategaeth wedi cyfrannu'n bositif at ddatblygiad llyfrgelloedd Cymru a'i bod yn werth da am arian.

**Rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol**

14. Mae angen i lyfrgelloedd ysbrydoli ac ysgogi pobl yn fwy nag erioed, a bod yn rhywle y gall pobl fynd iddi i gael mynediad at adnoddau o ansawdd uchel, i ddysgu ac astudio, i fwynhau, neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn amgylchedd diogel a hamddenol. Maent yn ganolbwynt diwylliannol ac addysgol yn y gymuned.

15. Fel rhan o'r strategaeth genedlaethol gyffredinol ar gyfer llyfrgelloedd, mae'r Rhaglen wedi adnewyddu 89 o lyfrgelloedd ers 2007 gyda grantiau gwerth dros £12m ac arian cyfatebol gan yr awdurdodau lleol. Ystyrir prosiectau o dan 2 fand, sef grantiau hyd at £120,000 a grantiau hyd at £300,000. Yn dilyn dadansoddiad o'r anghenion a gynhaliwyd yn 2006, lluniwyd amcanion y Rhaglen er mwyn:

- ail-osod llyfrgelloedd cyhoeddus wrth wraidd y gymuned
- galluogi'r gwasanaethau llyfrgell i ddarparu gwasanaethau gwell
- darparu gweithgareddau dysgu gydol oes arloesol
- darparu man hyblyg ar gyfer gweithgareddau cymunedol, a hynny'n aml mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- gwella mynediad i'r adeiladau ac adnoddau llyfrgell i ddefnyddwyr anabl
- manteisio ar ddatblygiadau technolegol,
- annog rhagor o bobl yn y gymuned i ddefnyddio'r gwasanaethau.

Mae fwyfwy o brosiectau yn darparu gwasanaethau yn yr un adeilad â'r llyfrgell, sy’n ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at wasanaethau cymunedol mewn un lle a sicrhau canlyniadau sy'n rhoi gwerth am arian. Nododd gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen:

> ‘Yn gyffredinol ... mae'r rhaglen buddsoddi cyfalaf wedi cael effaith bwysig ar wasanaethau llyfrgell cyhoeddus yng Nghymru …’

**Perthynas CyMAL ag Adrannau eraill Llywodraeth Cymru a Chyrff Allanol**

16. Mae llyfrgelloedd yn gyfle pwysig i gyflawni amcanion strategol ar draws y Llywodraeth. Mae eu statws fel ‘brand dibynadwy’ a'u lleoliad yn y gymuned yn galluogi adrannau eraill y llywodraeth a sefydliadau i gefnogi pobl yn eu cymunedau. Gan amrywio o sesiynau 'Paned gyda'ch Plismon' gyda'r heddlu, gweithgareddau hyrwyddo iechyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymorth Canser Macmillan, sesiynau 'Dyddiau Gwener Digidol' gyda rhaglen Cymunedau 2.0 i helpu pobl i ddefnyddio'r we, clybiau gwaith cartref, grwpiau darllen a Technocamps, mae llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth. Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol ac Universal Job Match gan Lywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n eu hawlio i ddefnyddio gwybodaeth ar-lein. Mae mynediad am ddim i'r we yn llyfrgelloedd Cymru yn cynnig gwasanaeth hollbwysig i bobl y mae angen cymorth arnynt ac mae'n helpu sefydliadau sy'n rhoi cyngor.

17. Yn fewnol, mae CyMAL yn gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn nodi cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ar y cyd. Er enghraifft, fis Mawrth 2014

bydd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon a’r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn lansio rhaglen beilot ar y cyd er mwyn cynorthwyo pob plentyn yng Nghymru i ymuno â'i lyfrgell leol. Mae gan lyfrgelloedd rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi nodi darllen anffurfiol fel dangosydd pwysig i wledydd uchel eu perfformiad wrth feincnodi lefelau llythrennedd ymhlith plant. Mae Llywodraeth Cymru drwy CyMAL yn rhoi cymorth ariannol er mwyn cynnal yr Her Darllen yn yr haf sy'n annog plant i ddarllen 6 o lyfrau yn ystod gwyliau'r haf, a chynnal gweithgareddau ar gyfer Diwrnod y Llyfr a Diwrnod Cenedlaethol Llyfrgelloedd.

18. Yn yr oes ddigidol sydd ohoni, mae angen i bobl fedru mynd ar-lein i gael gwybodaeth, cadw mewn cysylltiad ac elwa'n gyffredinol ar ddatblygiadau technolegol. Mae *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* yn dod â gwahanol bartneriaid ynghyd er mwyn sicrhau bod help ar gael. Er enghraifft, o dan y strategaeth ddigidol genedlaethol, mae rhaglen Cymunedau 2.0 a ariennir gan yr UE, wedi creu partneriaeth lwyddiannus gyda gwasanaethau llyfrgelloedd lleol a'r Ganolfan Byd Gwaith i helpu pobl i fynd ar-lein. Mae'r sectorau addysg bellach ac uwch yng Nghymru hefyd wedi arwain menter ymchwil bwysig i wella llythrennedd gwybodaeth drwy’r llyfrgelloedd.

19. Drwy gydweithrediad rhwng CyMAL, y sector a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, datblygwyd y gwasanaeth *Presgripsiwn Llyfrau* poblogaidd i roi cymorth i bobl sydd â salwch iechyd meddwl. Erbyn hyn mae'r model wedi'i fabwysiadu yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol. Mae cydweithio diweddar â Chymorth Canser Macmillan wedi arwain at leoli staff Macmillan mewn llyfrgelloedd, a brofodd yn llwyddiannus iawn. Mae gallu llyfrgelloedd i gyrraedd pobl yn eu cymunedau ac ar-lein yn rhoi cyfleoedd pwysig i bartneriaid eraill.

20. Amcan yr holl bartneriaethau hyn yw annog rhagor o bobl i ddefnyddio gwasanaethau'r llyfrgelloedd. Mae llyfrgelloedd bob amser wedi addasu i ddiwallu anghenion eu defnyddwyr a chanfod dulliau o ddenu defnyddwyr newydd. Un agwedd bwysig ar strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r manteision a ddaw o ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell a helpu staff llyfrgelloedd i lunio strategaethau datblygu cynulleidfaoedd. Mae tîm marchnata ymroddedig bach yn gweithio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i helpu gyda holl wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymgyrchoedd cenedlaethol, hyfforddiant mewn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus a thechnegau manwerthu arloesol, gwefan Llyfrgell Cymru a phecyn cymorth i staff. Fodd bynnag, bydd bob amser angen gwneud mwy. Mae'r strategaeth genedlaethol wedi arwain at agwedd fwy broffesiynol tuag at wasanaethau llyfrgell drwy ddenu a chadw defnyddwyr o bob oed.

**Adolygiad Arbenigol o Wasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru**

21. Mae'r cyd-destun ariannol sydd ohoni yn gofyn am ymrwymiad newydd i sicrhau bod gwasanaethau llyfrgell yn darparu gwasanaethau perthnasol a chryf drwy gydweithredu a chydweithio. Ceir llawer o enghreifftiau ardderchog lle mae hyn wedi'i gyflawni o dan strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer llyfrgelloedd. Fodd bynnag bydd heriau'r dyfodol yn gofyn am ystyried modelau amgen o ddarparu gwasanaethau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar nodi gofynion pobl o ran gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, sut dylai gwasanaethau cyfredol addasu i ddiwallu anghenion newidiol a'r adnoddau sydd ar gael?

Mae trafodaethau diweddar ar gynllunio'r gyllideb gan awdurdodau lleol wedi datgelu hyd a lled yr her. Mae pobl Cymru yn haeddu ymateb cydlynol a strategol gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid y gwasanaethau llyfrgell.

22. Fis Rhagfyr 2013, cyhoeddais Adolygiad Arbenigol o Wasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i asesu effaith toriadau yn y swm y mae awdurdodau lleol yn ei wario ar wasanaethau llyfrgell ar eu gallu i gynnal darpariaeth statudol. Bydd yr Adolygiad hefyd yn ystyried modelau cynaliadwy posibl o ddarparu gwasanaethau a nodir wrth gynnal ymchwil ac ymgynghori â rhanddeiliaid ar y canlynol:

- tueddiadau'r dyfodol mewn gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus
- dulliau addas o ddarparu gwasanaethau
- fframweithiau deddfwriaethol addas

Yn ogystal â hynny, ysgrifennais at Arweinwyr a Phrif Weithredwyr pob awdurdod lleol yn eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau statudol o ran gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus wrth bennu eu cyllidebau ar gyfer 2014-15. Fis Chwefror 2014, cyfarfûm ag aelodau etholedig a swyddogion awdurdodau lleol mewn seminar a drefnwyd gan CLlLC i drafod dyfodol darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Bydd canfyddiadau cychwynnol Panel yr Adolygiad Arbenigol yn cael eu cyflwyno fis Gorffennaf 2014.

23. Fel y nodwyd yn fy natganiad ysgrifenedig i aelodau ar 3 Rhagfyr 2013, rwy'n bwriadu sicrhau bod pobl ar hyd a lled Cymru yn elwa ar wasanaethau llyfrgell cadarn sy'n ymateb i anghenion y cyhoedd, sydd wedi'u rheoli'n dda, sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol. Mae'n adeg ariannol anodd i awdurdodau lleol ac rwy'n cydnabod y pwysau sydd ar gynghorau wrth wneud penderfyniadau anodd. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ceisio deall yn well ym mhle y mae angen cymorth. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath mae’n bwysicach fyth arwain ar hyn er mwyn gwella ein gallu i gynnal a datblygu gwasanaethau llyfrgell effeithiol.

24. Rwy'n disgwyl i awdurdodau lleol ymgynghori'n llawn gyda'u cymunedau a chynnal asesiadau o effaith unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth gyfredol. Ymgyrchodd pobl Cymru yn galed am wasanaethau llyfrgell am ddim. Mae'n rhaid inni sicrhau bod y gwerthoedd hynny yn parhau i fod yn sail i wasanaethau llyfrgell y dyfodol.

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**
**CELG(4)-08-14 Papur 2**

**Ymchwiliad Pwyllgor Craffu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Fasnachu Pobl**

**Tystiolaeth Ategol Lesley Griffiths, AC, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**

1. **Cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â masnachu pobl**

1.1 Fel y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, fy nod yw cyflwyno ein hymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i wneud Cymru yn lle gelyniaethus i gaethwasiaeth a chydgysylltu'r gefnogaeth orau posib i oroeswyr y trosedd erchyll hwn. Trwy wneud hynny, byddwn yn gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

1.2 Mae mynd i'r afael â chaethwasiaeth yn galw am ddull strategol o weithredu, mewn ffordd gydlynol, gan weithio ar draws ffiniau'r pedair Llywodraeth yn y DU. Mae ein hymateb ni yng Nghymru wedi'i gryfhau drwy benodi Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth.

1.3 Llywodraeth Cymru yw'r unig Lywodraeth yn y DU i benodi Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth. Roedd y swydd yn ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac mae'n bodoli ers 4 Ebrill 2011. Stephen Chapman yw'r ail Gydgysylltydd a daeth i'r swydd ym mis Tachwedd 2012.

1.4 O safbwynt strategol, rwyf yn aelod o Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol y DU ar Gaethwasiaeth Modern. Cadeirir y Grŵp gan Weinidog y Swyddfa Gartref ar gyfer Caethwasiaeth Modern a Throseddu Cyfundrefnol ac mae'n cynnwys Gweinidogion o Adrannau eraill Llywodraeth Whitehall, Swyddfa Cymru a Swyddfa'r Alban, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp hwn yn goruchwylio ymdrechion y DU i ddileu caethwasiaeth.

1.6 Ar 17 Hydref 2013, mynychais Gyfarfod Eithriadol o'r Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Gaethwasiaeth Modern yn 10 Stryd Downing, a gadeiriwyd gan y Prif Weinidog. Cyflwynodd y Prif Weinidog gynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer Bil Caethwasiaeth Modern y bwriedir ei gyflwyno ym mis Mai 2014. Dyma gynnwys arfaethedig y Bil:

- Cadarnhau'r ddeddfwriaeth bresennol
- Cyflwyno Comisiynydd Atal Caethwasiaeth
- Cyflwyno gorchmynion atal masnachu
- Cynyddu pwerau'r Heddlu i fynd ar fwrdd llongau ar y môr ac ymyrryd a rhoi cyfarwyddiadau

Dyma ystyriaethau anneddfwriaethol eraill i gryfhau ymrwymiad y DU i fynd i'r afael â chaethwasiaeth:

- Tryloywder yng nghadwyni cyflenwi cwmnïau
- Defnyddio asedau a atafaelir gan fasnachwyr i gefnogi gweithgareddau atal masnachu pobl
- Gweddnewid y llywodraethu sy'n ymwneud ag atal caethwasiaeth drwy edrych ar ymarferoldeb cyflwyno rhwydwaith o gydgysylltwyr rhanbarthol i gefnogi'r Comisiynydd
- Sefydlu tasglu rhithiol i gefnogi gweithrediadau atal masnachu pobl lleol a rhanbarthol

1.7 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar gyflwyno'r mesurau newydd arfaethedig hyn, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni eisoes yng Nghymru.

1.8 Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda'r pedwar Heddlu yng Nghymru, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac asiantaethau eraill sy'n rhoi'r gyfraith ar waith. Rwyf yn cyfarfod â Phrif Gwnstabliaid Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn rheolaidd ac, yn fy nghyfarfodydd diweddaraf â hwy, gofynnais iddynt roi blaenoriaeth i gamau gweithredu i atal caethwasiaeth.

1.9 Dylid nodi hefyd ein cyswllt ag Arweinydd Strategol Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru a Lloegr ar gyfer Troseddau Mudo a Materion Cysylltiedig, Shaun Sawyer, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfnaint a Chernyw, a chyda Jeff Farrar, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, sy'n arwain yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y pedwar Heddlu yng Nghymru'n cydweithio i roi sylw i gaethwasiaeth.

1.10 Er mwyn codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth a chael yr Heddlu i chwarae mwy o ran mewn mynd i'r afael â'r troseddau hyn, ym mis Mawrth 2013, lansiodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu 'Operation Eagle', menter barhaus i wella'r ymateb i fynd i'r afael â chaethwasiaeth, masnachu a throseddau mewnfudo cyfundrefnol. Amcan 'Operation Eagle' yw creu mwy o ymwybyddiaeth, sicrhau cynnydd yn y wybodaeth a dderbynnir a gwella'r cydgysylltu a'r camau gweithredu gan holl Heddluoedd Cymru a Lloegr. Mae pedwar Heddlu Cymru yn ymwneud â chamau gweithredu ataliol a rhagweithiol i atal caethwasiaeth. Mae Unigolion Cyswllt Strategol wedi cael eu dewis yn yr Heddluoedd i gyd i arwain ar wella ymateb yr Heddlu i gaethwasiaeth. Ar fy rhan i, mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn gweithio'n agos gyda'r Unigolion Cyswllt hyn i sicrhau bod arferion da'n cael eu rhannu.

1.11 Fel ymateb i Adroddiad y Grŵp o Arbenigwyr ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl, *'Concerning the implementation of the Council of Europe Convention on Action Against Trafficking in Human Beings by the United Kingdom 2012'*, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno ac adeiladu ar yr argymhellion.

1.12 Fis Ionawr 2014, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad i dynnu sylw at Adroddiad Blynyddol Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn manylu ar y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud yng Nghymru hyd yma ac rwyf wedi darparu copi i'r Pwyllgor hwn.

1.13 Yn fy Natganiad Ysgrifenedig, nodais hefyd y newid yn y derminoleg rydym yn ei defnyddio yn y maes hwn i sicrhau bod y

gwaith rydym yn ei wneud yn cael ei ddeall yn llawn gan y cyhoedd a'n partneriaid. Mae'r Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl yn cael ei alw'n Gydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn awr, mae dioddefwyr caethwasiaeth modern yn cael eu galw'n oroeswyr, ac mae'r rhai sy'n masnachu'n cael eu galw, yn syml, yn droseddwyr. Bydd y termau hyn yn cael eu derbyn a'u cydnabod yn eang o ganlyniad i'r Bil Caethwasiaeth Modern sydd i gael ei lunio ac maent yn cael eu defnyddio eisoes i ryw raddau gan y cyfryngau. Rwyf yn credu eu bod yn fwy ystyrlon ac yn rhoi gwell dealltwriaeth i bobl o'r mater. Yn benodol, bydd yn gwahaniaethu'n gwbl glir rhwng smyglo pobl a cheiswyr lloches, lle ceir dryswch yn aml ynghylch y termau hyn.

## 2. Swydd, cylch gwaith a chapasiti'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth

2.1 Ers cael ei benodi, mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth presennol wedi creu cysylltiadau cadarn ag ystod eang o unigolion a sefydliadau, yn sefydliadau datganoledig statudol ac anstatudol a Sefydliadau Anllywodraethol ledled y DU, er mwyn creu mwy o ymwybyddiaeth a chydgysylltu gweithgareddau unedig i fynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod yn rheolaidd â Swyddogion o'r Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a phartneriaid eraill y DU i drafod a rhannu arferion da.

2.2 Mae Grŵp Arwain ar Atal Caethwasiaeth Cymru wedi cael ei sefydlu i roi arweiniad strategol. Mae Cynllun Cyflawni wedi cael ei ddatblygu i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chaethwasiaeth. Rwyf wedi cadeirio'r Grŵp Arwain, sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bartneriaid datganoledig a heb eu datganoli, a Sefydliadau Anllywodraethol. Hwn yw'r unig grŵp o'i fath yn y DU. Unwaith eto, mae Cymru yn arwain y ffordd.

2.3 Mae Cynllun Cyflawni Grŵp Arwain ar Atal Caethwasiaeth Cymru wedi datblygu'r amcanion strategol canlynol er mwyn llywio eu gwaith:

- Sefydlu sylfaen o dystiolaeth gan ddefnyddio prif gyfresi data a chyfresi data eilaidd i roi gwybodaeth well i'r Grŵp Arwain am raddfa caethwasiaeth yng Nghymru
- Cwmpasu Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi i sicrhau bod yr hyfforddiant yn gyson ledled Cymru yn y dyfodol
- Datblygu protocolau rhannu deallusrwydd/gwybodaeth
- Datblygu Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu
- Datblygu Llwybr Gofal i Oroeswyr ar gyfer Cymru

2.4 Fel sail i gyflawni Amcanion Strategol y Cynllun Cyflawni, ac i adeiladu ar lwyddiant Grŵp Ymgynghorol Gwent ar Atal Caethwasiaeth, mae Fforymau Atal Caethwasiaeth wedi cael eu sefydlu ar gyfer Caerdydd, De Cymru a'r Bae Gorllewinol. Pwrpas y Fforymau hyn yw rhannu arferion da yng nghyswllt gwybodaeth/deallusrwydd a chyflwyno mentrau lleol. Mae Fforymau Atal Caethwasiaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer ardaloedd Gogledd Cymru a Dyfed-Powys.

2.5 Yn yr adroddiad blynyddol cyntaf gan y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol a gyflwynwyd i'r Senedd yn 2012, tynnwyd sylw at y ffaith bod casglu data a rhannu gwybodaeth yn ddau faes allweddol ar gyfer gwella a gwaith yn y dyfodol er mwyn deall lefel caethwasiaeth yn y DU. Fel y nodwyd yn gynharach, rwyf yn aelod o'r Grŵp hwn. Mae'r Grŵp yn cynnwys Strategaeth Masnachu Pobl Llywodraeth y DU a chydymffurfiaeth y DU â gofynion yr UE a gofynion rhyngwladol. Hefyd, mae fy Nghydgysylltydd Atal Caethwasiaeth wedi cael ei gyfethol yn aelod o 'Grŵp Data Gorchwyl a Gorffen' Grŵp Strategol ar y Cyd y Swyddfa Gartref, sy'n datblygu'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer y DU.

2.6 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.3 uchod, mae'r angen i gael sylfaen dystiolaeth gadarn wedi cael ei gydnabod ac wedi cael blaenoriaeth yng Nghymru. Credir bod y ffigur presennol o 50 o atgyfeiriadau a gofnodwyd yn 2013 gan ddata Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (MCC) Canolfan Masnachu Pobl y DU yn danamcangyfrif sylweddol o raddfa'r broblem yng Nghymru. Fodd bynnag, mae data 2013 yn dangos cynnydd o 47% ar 34 o atgyfeiriadau yn 2012, sy'n debygol o

gael ei briodoli i well ymwybyddiaeth a'r ffaith bod yr Heddlu'n chwarae rhan fwy rhagweithiol yn yr ymchwiliadau i gaethwasiaeth.

2.7 Fis Mawrth 2013, cyflwynodd fy Nghydgysylltydd Atal Caethwasiaeth achos a sicrhaodd gytundeb gan Grŵp Adolygu MCC y Swyddfa Gartref i Sefydliadau Anllywodraethol Cymru, Bawso a Llwybrau Newydd gael eu cydnabod fel sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf. Y bwriad drwy roi'r rôl hon i ddau Sefydliad Anllywodraethol yw sicrhau y bydd gan oroeswyr caethwasiaeth hyder i'w cyfeirio eu hunain at y MCC.

2.8 Yn ogystal â darparu i'r goroeswyr hyn gefnogaeth a sicrheir drwy broses y MCC, bydd y data a geir o'r achosion hyn yn darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i ddwyn y troseddwyr i gyfiawnder ac i helpu hefyd gyda chreu sylfaen o dystiolaeth. O blith y 50 o achosion y rhoddwyd gwybod i'r MCC amdanynt yn 2013, cyfeiriwyd naw achos gan Bawso a dau achos gan Lwybrau Newydd. O ystyried na fu i'r naill sefydliad na'r llall ddechrau cyfeirio tan fis Ebrill 2013, mae'n amlwg eu bod wedi cael effaith nodedig a buan. Mae eu cyswllt wedi cyfrannu'n sicr at roi hyder i oroeswyr eu cyfeirio eu hunain at y broses MCC, a bydd eu cefnogaeth barhaus yn hanfodol.

2.9 Mae caethwasiaeth yn cael ei ystyried gan lawer fel 'trosedd cudd' a nifer yr achosion a gyfeirir at broses y MCC a'r System Cyfiawnder Troseddol yw'r unig brif gyfresi data a ddefnyddir yn y DU. Mae creu sylfaen o dystiolaeth am raddfa masnachu caethwasiaeth yng Nghymru yn un o amcanion strategol y Grŵp Arwain. Mae'r Cydgysylltydd yn gweithio gyda phartneriaid i lunio prif gyfresi data a chyfresi data eilaidd i sicrhau gwybodaeth well am lefel y caethwasiaeth yng Nghymru.

2.10 Mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o Grwpiau Llywodraeth y DU, Bwrdd Lleihau Bygythiadau'r DU, Bwrdd Strategaeth Masnachu Pobl y DU, Grŵp Strategaeth ar y Cyd y Swyddfa Gartref (Sefydliadau Anllywodraethol), Grŵp Adolygu Goruchwyliaeth y MCC y Swyddfa

Gartref a Fforwm Rhannu Gwybodaeth am Fasnachu Plant y Swyddfa Gartref.

2.11 Mae'r Heddlu wedi cydnabod bod achosion o gaethwasiaeth yn gymhleth i ymchwilio iddynt ac mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth wedi gweithio gyda'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a sefydliadau partner eraill i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer Uwch Swyddogion Ymchwilio (USY). Mae'r rhaglen ddeuddydd, sy'n cael ei chyflwyno o 'Ganolfan Hydra' ym Mhencadlys Heddlu De Cymru, yn cael ei hehangu i gynnwys USY, gyda Heddlu De Cymru i ddechrau ac wedyn i'r tri Heddlu arall yng Nghymru. Mynychwyd y cwrs cyntaf gan 12 ymgeisydd. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu wedi cydnabod y rhaglen hyfforddi fel arfer da a bydd ar gael ar gyfer ei rhaeadru ledled y DU.

2.12 Mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn gweithio hefyd gyda chydweithwyr ar fenter o dan arweiniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i gyflwyno Timau Ymchwilio ar y Cyd ar gyfer achosion o gaethwasiaeth. Ymhlith y partneriaid eraill mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yr Heddlu, Adran Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri, Bawso a Llwybrau Newydd. Y nod yw llywio'r gwaith o ymchwilio i achosion drwy sicrhau ymgysylltu buan â Gwasanaeth Erlyn y Goron. Hefyd, mae'r manteision yn cynnwys datgan cyfleoedd i atafaelu asedau o dan y Ddeddf Enillion Troseddau, cefnogi ac amddiffyn tystion a rhannu arferion da.

2.13 Fis Rhagfyr 2013, aeth Fforwm Atal Caethwasiaeth Caerdydd ati i gynnal eu Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth beilot gyntaf ar gyfer Atal Caethwasiaeth ac, wedi adborth cadarnhaol, mae'r broses hon yn cael ei defnyddio ar gyfer yr holl achosion yn y dyfodol sy'n ymwneud â dioddefwyr posibl caethwasiaeth yn ardal Caerdydd. Arweinir y Gynhadledd gan Bawso ac mae'n cynnwys nifer o bartneriaid amlasiantaeth. Bydd yr arfer da hwn yn cael ei raeadru ledled Cymru.

## 3. Rôl Awdurdodau Lleol mewn adnabod masnachu pobl

3.1 Mae gan Awdurdodau Lleol rôl arwain bwysig i'w chwarae o ddydd i ddydd yn eu cymunedau yng nghyswllt caethwasiaeth ac, mewn sawl achos, hwy sydd yn y lle gorau i adnabod arwyddion o gaethwasiaeth lle mae'n digwydd. Mae ein rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cael ei chyflwyno ledled Cymru a bydd yn sicrhau bod yr ymarferwyr rheng flaen yn deall beth yw achosion o gaethwasiaeth ac yn hyderus i ddelio â hwy a rhoi gwybod amdanynt.

3.2 Ar lefel strategol, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, Mohammed Mehmet, yw arweinydd Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus ar Atal Caethwasiaeth. Mae Mr Mehmet yn hybu'r gwaith sydd ar droed ar Ynys Môn ymhlith Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a bydd hwn yn cael ei raeadru i Brif Weithredwyr eraill ledled Cymru. Mae'r rôl 'Hyrwyddo' hon yn cynnwys cadarnhau'r ymwybyddiaeth o adroddiad SOLACE 2009 *'Rôl Awdurdodau Lleol mewn rhoi sylw i fasnachu pobl'* i Brif Weithredwyr eraill Awdurdodau Lleol Cymru.

3.3 Cefnogodd Mr Mehmet Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, sef Mr Richard Parry-Jones, gyda chais llwyddiannus i Gronfa Gydweithredol Ranbarthol Llywodraeth Cymru i gyllido Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Penodwyd Cydgysylltydd Gogledd Cymru, Jim Coy, fis Tachwedd 2013. Hoffwn weld ystyriaeth yn cael ei rhoi i benodi Cydgysylltwyr Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol ledled Cymru, drwy bartneriaethau rhwng Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a rhanddeiliaid eraill. Gellid defnyddio'r Ddeddf Enillion Troseddau i gyllido'r swyddi hyn, oherwydd mae defnyddio enillion caethwasiaeth yn ymddangos yn briodol a chyfiawn.

3.4 Mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, ar y cyd â Chydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru sydd wedi'u lleoli yn y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn cyflwyno hyfforddiant i greu mwy o ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth, gan egluro sut mae rhoi gwybod am achosion a sut mae cyfeirio goroeswyr i Ganolfan Masnachu Pobl y DU gan ddefnyddio'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno i ymarferwyr rheng flaen ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol, Amddiffyn Plant ac Oedolion

Agored i Niwed, Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd ac Adrannau rheng flaen allweddol eraill. Rwyf yn cyfrannu £50,000 y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf (2014-15 a 2015-16) i ariannu'r naw swydd Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol, er mwyn mynd ati i gefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â chaethwasiaeth a thrais ar sail anrhydedd yng Nghymru.

**4. Creu mwy o ymwybyddiaeth**

4.1 Amcangyfrifir fod 21 miliwn o bobl ar hyd a lled y byd yn gaethweision ar hyn o bryd a dyma'r diwydiant troseddol sy'n tyfu gyflymaf yn y byd a'i werth yn £45 miliwn.

4.2 Mae caethwasiaeth yn cael ei ddisgrifio'n aml fel 'trosedd cudd' a'r farn gyffredinol yw nad yw'n digwydd yma yng Nghymru. Fodd bynnag, gwyddom fod caethwasiaeth yn digwydd yma – yn ein dinasoedd, ein trefi a'n hardaloedd gwledig. Rwyf wedi cyfarfod goroeswyr yng Nghymru ac wedi gwrando ar eu profiadau erchyll a chlywed am eu dioddefaint.

4.3 Mae creu mwy o ymwybyddiaeth yn un o flaenoriaethau Cynllun Cyflawni Grŵp Arwain ar Atal Caethwasiaeth Cymru. Mae'r amcanion strategol yn cynnwys mentrau sy'n amrywio o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus i hyfforddiant penodol ar gyfer ein hymarferwyr a'n gweithwyr proffesiynol rheng flaen. Dyma ein blaenoriaethau ar hyn o bryd:

- Fis diwethaf, ein Hymgyrch Hysbysebu genedlaethol lwyddiannus ar y teledu, ar ITV Wales, S4C a theledu ar gais. Dyma'r gyntaf o'i bath yn y DU ac mae Gweinyddiaethau eraill wedi dangos diddordeb mewn bwrw ymlaen ag ymgyrchoedd mawr o'r fath
- Ymgyrch boster genedlaethol ar fysiau ac mewn safleoedd aros am fysiau. Mae'r posteri'n cael eu harddangos mewn gorsafoedd Heddlu hefyd, ac mewn mannau cyhoeddus eraill

- Mae Grŵp Arwain ar Atal Caethwasiaeth Cymru wedi cynhyrchu DVD i greu mwy o ymwybyddiaeth ac mae wedi cael ei ddosbarthu'n eang. Mae ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd
- Cyrsiau hanner diwrnod "Cyflwyniad i Atal Caethwasiaeth" a hyfforddiant diwrnod llawn "Ymarferwyr Atal Caethwasiaeth" sy'n cael eu cyflwyno ledled Cymru. Mae'r hyfforddiant hwn yn un o Amcanion Strategol y Grwpiau Arwain ac mae'n cael ei gyflwyno gan ein sefydliadau partner ledled Cymru
- Rhaglen hyfforddi ddeuddydd "Uwch Swyddogion Ymchwilio" – y gyntaf o'i bath eto yn y DU ac mae bwriad i'w hehangu i gynnwys holl Heddluoedd y DU
- Cynadleddau a seminarau Atal Caethwasiaeth – gan gynnwys Diwrnod Atal Caethwasiaeth (18fed Hydref)
- Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe er mwyn cyflwyno cwrs hyfforddi ôl-raddedig ac i gael achredu ein cyrsiau hyfforddi
- Rwyf wedi gwneud cyfweliadau amrywiol ar y teledu a'r radio ac mewn papurau newydd. Hefyd, mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn ymwneud â'r cyfryngau'n rheolaidd ar fy rhan i, i greu mwy o ymwybyddiaeth
- Mae tudalen Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru ar y we wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru a bellach mae'n ffynhonnell o wybodaeth hanfodol i ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol, academyddion a'r cyhoedd
- Fel y gwyddoch, nos Fawrth, cynhaliais ddigwyddiad creu ymwybyddiaeth yn Nhŷ Hywel ar gyfer Aelodau Cabinet, Aelodau Cynulliad, Prif Gwnstabliaid, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, aelodau Grŵp Arwain ar Atal Caethwasiaeth Cymru a gwesteion eraill a gafodd wahoddiad. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar gynhyrchiad o'r ddrama "SOLD", y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chyllido er mwyn cynhyrchu'r fersiwn a oedd yn cael ei pherfformio. Rwyf hefyd wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer DVD o'r ddrama, i'w ddefnyddio at bwrpas creu mwy o ymwybyddiaeth.
- Byddaf yn ymweld â Maes Awyr Caerdydd ddydd Mawrth 8fed Ebrill i weld y trefniadau diogelwch sydd yn eu lle ar gyfer mynd i'r afael â chaethwasiaeth ac yn cyfarfod staff rheng flaen Tîm

Rheoli'r Maes Awyr, yr Heddlu, Llu Ffiniau'r DU a chludwyr sy'n ymwneud â'r gwaith hwn. Byddaf hefyd yn cyfarfod staff rheng flaen a fydd yn mynychu cwrs hyfforddiant ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth sydd i'w gynnal yn y Maes Awyr.

## 5. Cyllid ar gyfer gwasanaethau cefnogi dioddefwyr

5.1 Darperir cyllid ar gyfer gwasanaethau cefnogi dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae Byddin yr Iachawdwriaeth wedi cael contract i ddarparu'r gwasanaeth ar gyfer Cymru a Lloegr.

5.2 Yng Nghymru, mae Byddin yr Iachawdwriaeth wedi is-gontractio Bawso i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Mae gan Bawso swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru a chan ei fod yn sefydliad Ymatebwyr Cyntaf y MCC, mae ganddo brofiad o ddarparu cefnogaeth i oroeswyr.

5.3 Er mwyn cael y gefnogaeth hon, dylid nodi bod rhaid i oroeswyr eu cyfeirio eu hunain yn wirfoddol a chael eu derbyn yn rhan o broses y MCC.  Wedyn mae gan y goroeswyr hawl i gyfnod adfer a myfyrio penodol o 45 diwrnod, sy'n cynnwys y canlynol:

- Dod o hyd i lety diogel dros dro
- Triniaeth feddygol
- Cwnsela
- Cyfieithydd i helpu gyda chyfathrebu yn Saesneg
- Gwasanaeth amddiffyn – efallai y bydd helpu gyda'r ymchwiliad troseddol yn golygu bod angen gwasanaeth amddiffyn tystion a chefnogaeth barhaus nes bod yr achos troseddol wedi'i ddatrys
- Darparu cyngor cyfreithiol
- Cymorth i ddychwelyd i'w gwlad enedigol
- Ni fydd unigolion o'r tu allan i Wledydd Prydain neu o Ardal Economaidd Ewrop yn cael eu symud o'r wlad yn ystod y 45 diwrnod ac, os ydynt yn oroeswyr, efallai y byddant yn cael eu hystyried am drwydded breswylio dros dro

- Os nad yw'r goroeswr yn Brydeiniwr neu o Ardal Economaidd Ewrop ac os nad oes ganddo hawl i aros yn y DU, bydd yn cael cymorth i ddychwelyd i'w wlad enedigol, os bydd gwneud hynny'n ddiogel iddo

5.5 Os na chaiff sefyllfa'r goroeswr ei datrys ar ôl 45 diwrnod, bydd yn cael ei gyfeirio at yr Awdurdod Lleol perthnasol am gefnogaeth barhaus.

5.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyllido 'Prosiect Diogel' Bawso yng Ngogledd Cymru ers 2010, sy'n darparu llety diogel a chefnogaeth i oroeswyr caethwasiaeth. Yn fwy diweddar, mae'r prosiect wedi ehangu i gefnogi mwy o fenywod yng Ngogledd Cymru a De Ddwyrain Cymru.  Erbyn hyn, mae'r prosiect yn darparu 13 uned o lety diogel ac 20 uned allgymorth ledled Cymru.  Yn ychwanegol at gyllido costau sefydlu'r prosiect, gan gynnwys cyfalaf o £164,484 ar gyfer prynu'r adeilad, mae cyllid refeniw parhaus o £74,000 yn cael ei ddarparu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Cyntaf

# Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl

# Llywodraeth Cymru

# 2013




**"Gwneud Cymru yn wlad sy'n elyniaethus tuag at Fasnachu mewn Pobl a rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr sydd wedi'u masnachu"**

**Tachwedd 2013**

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | 3 |
| **Crynodeb Gweithredol** | 4 |
| **Pennod 1: Masnachu mewn Pobl - Tueddiadau a'r Bygythiadau Diweddaraf** | 7 |
| **Pennod 2: Masnachu mewn Pobl yng Nghymru** | 10 |
| **Pennod 3: Rôl Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl Llywodraeth Cymru** | 14 |
| **Pennod 4: Grŵp Arweinyddiaeth a Chynllun Cyflawni ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru** | 16 |
| **Pennod 5: Y Cynnydd hyd yn hyn** | 18 |
| **Pennod 6: Y Camau Nesaf** | 22 |
| **Atodiad A – Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru** | 24 |
| **Atodiad B – Cynllun Cyflawni Cymru ar Atal Masnachu mewn Pobl** | 25 |
| **Atodiad C – Ystadegau'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn 2012** | 38 |
| **Atodiad D – Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Fasnachu mewn Pobl** | 41 |
| **Atodiad E - Acronymau** | 43 |


**Manylion cyswllt:**


**Stephen Chapman**
**Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl**
**Llywodraeth Cymru**
**Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol**
**Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**Cymru CF48 1 UZ**

**Ffôn: 0300 062 8945 E-bost: Stephen.Chapman2@Wales.GSI.Gov.UK**

## Rhagair



***"Bwriad Llywodraeth Cymru yw gwneud Cymru yn wlad sy'n elyniaethus tuag at Fasnachu mewn Pobl a rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr sydd wedi'u masnachu"***

Rwyf yn falch o gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol 2013 ar waith y Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl ar gyfer Cymru.

Mae masnachu mewn pobl yn drosedd ffiaidd sy'n peri trallod i'r dioddefwyr ac yn effeithio ar ein cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am gymryd camau cydlynus, amlasiantaethol i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl ac rwyf yn credu y byddwn, drwy weithredu ar y cyd fel hyn, yn gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Crëwyd swydd y Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl ym Mawrth 2011 er mwyn cyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu. Dyma'r swydd gyntaf o'i math yn y DU a Stephen Chapman yw'r ail Gydgysylltydd ers ei benodi i'r swydd ym mis Tachwedd 2012.

Rydym wedi gweld datblygiadau a chynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf wedi sefydlu Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru sy'n cynnwys unigolion allweddol sy'n arwain ar dasgau penodol y maent yn y sefyllfa orau i'w cyflawni. Mae Cynllun Cyflawni gan y Grŵp Arweinyddiaeth sy'n cynnwys Amcanion Strategol a fydd yn ei alluogi i arolygu a phennu'r cyfeiriad o ran sut mae mynd i'r afael â masnachu mewn pobl yng Nghymru.

Ym mis Hydref roeddwn yn bresennol yng nghyfarfod y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol yn 10 Downing Street. Yn y cyfarfod cyhoeddodd y Prif Weinidog ei fwriad i roi Mesur Caethwasiaeth Fodern ar waith erbyn Mai 2014 er mwyn cryfhau ymateb y DU i fasnachu mewn pobl. Bydd y mesurau sydd i'w cyflwyno gan Lywodraeth y DU yn ein galluogi i ddatblygu'r gwaith yr ydym wedi'i gyflawni eisoes yma yng Nghymru.

Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn rwyf am anfon neges o obaith at ddioddefwyr masnachu mewn pobl drwy ddweud hyn - byddwn yn dod o hyd i chi, a phan fydd hynny'n digwydd byddwn yn eich cefnogi i ailddechrau byw bywyd normal. Neges wahanol sydd gennyf i'r masnachwyr - ni fydd eich troseddau'n cael eu goddef yng Nghymru a byddwn yn dod o hyd i chi hefyd, a phan fydd hynny'n digwydd byddwn yn sicrhau eich bod yn wynebu holl rym y gyfraith.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Llywodraeth Cymru**

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf gan y Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl ar gyfer Cymru, Stephen Chapman, ers ei benodi i'r swydd ar 20 Tachwedd 2012. Ei bwrpas yw rhoi gwybod am y gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

### Masnachu mewn Pobl - Tueddiadau a'r Bygythiadau Diweddaraf

Mae Cymru'n effro o hyd i'r perygl oddi wrth fasnachwyr mewn pobl ac, er 2009, gwelwyd cynnydd yng Nghymru a'r DU yn nifer y dioddefwyr dichonol oherwydd masnachu mewn pobl sydd wedi'u cyfeirio at y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (MCC). Mae Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU (CMPDU) wedi cofnodi bod y duedd hon wedi parhau i gynyddu drwy gydol 2013 ac nid oes arwydd eto fod y duedd hon yn newid.

Yn 2012, deliodd CMPDU ag atgyfeiriadau a oedd yn ymwneud â chamfanteisio rhywiol, camelwa o lafur, caethiwed domestig, casglu meinweoedd/organau dynol ac ecsbloetio troseddol. Ac eithrio casglu meinweoedd/organau dynol, cafwyd gwybod gan ddioddefwyr a oedd wedi'u hatgyfeirio at yr MCC fod pob un o'r mathau hyn o fasnachu mewn pobl wedi digwydd yng Nghymru.

### Masnachu mewn Pobl yng Nghymru

Mae llawer yn ystyried bod masnachu mewn pobl yn 'drosedd cudd' ac yn cydnabod bod nifer yr achosion sy'n digwydd yn fwy na'r hyn a gofnodir, a hynny am amryw o resymau. Yn 2012 cofnododd CMPDU fod 34 o achosion yng Nghymru wedi'u hatgyfeirio at yr MCC, ac roedd 10 o'r rhain yn ymwneud â phobl ifanc dan oed.

Er bod nifer yr achosion o Gymru sydd wedi'u hatgyfeirio at yr MCC yn fach, mae'r nifer yn codi o flwyddyn i flwyddyn ac nid oes arwydd bod y duedd hon yn newid. Yn 2012 camfanteisio rhywiol oedd y math mwyaf cyffredin o gamfanteisio a oedd wedi'i gofnodi yng Nghymru o hyd, a chamelwa o lafur oedd y math o fasnachu mewn pobl a oedd wedi'i gofnodi'n ail amlaf.

O'r 34 o achosion yng Nghymru a oedd wedi'u hatgyfeirio at yr MCC, cafwyd gwybod gan CMPDU yn 2012 mai Gwlad Pwyl oedd y wlad yr oedd y nifer mwyaf o ddioddefwyr sy'n oedolion yn hanu ohoni, sef 6. Fiet-nam oedd y wlad yr oedd y nifer mwyaf o ddioddefwyr ifanc dan oed yn hanu ohoni, sef 4.

Gan gofio bod nifer yr achosion o fasnachu mewn pobl yn fwy na'r hyn sy'n cael ei gofnodi, pan geir achosion o'r fath yng Nghymru mae tuedd iddynt ddenu llawer o sylw gan y cyfryngau. Ym Medi 2013 roedd Heddlu Gwent wedi gweithredu drwy 'Ymgyrch Imperial' ar sail tystiolaeth a chudd-wybodaeth am bobl a oedd yn cael eu cadw o dan amodau gwael a'u gorfodi i weithio'n ddi-dâl ar fferm ger Casnewydd. O ganlyniad i hyn,

achubwyd nifer o bobl gan gynnwys dyn 43 blwydd oed a oedd wedi bod ar goll am fwy na degawd ac arestiwyd tri dyn am fasnachu mewn pobl.

**Rôl Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl Llywodraeth Cymru**

Er mwyn mynd i'r afael â masnachu mewn pobl, mae angen cymryd camau cydgysylltiedig ar draws y pedair Llywodraeth yn y DU, gan weithio ar draws ffiniau mewn meysydd datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli. Mae'r ymateb yng Nghymru wedi'i atgyfnerthu drwy benodi Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl, y swydd gyntaf o'i math yn y DU.

Crëwyd swydd y Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl ym Mawrth 2011 ac mae hyn yn ymrwymiad allweddol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

**Grŵp Arweinyddiaeth a Chynllun Cyflawni ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru**

Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru wedi'i sefydlu i roi arweinyddiaeth strategol er mwyn gwneud penderfyniadau wedi'u seilio ar well gwybodaeth ac er mwyn cymryd camau yn erbyn masnachu mewn pobl yng Nghymru (gweler Atodiad A – Cylch Gorchwyl).

Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth mewn sefyllfa unigryw lle y gall ychwanegu gwerth drwy gydgysylltu camau gweithredu rhwng partneriaid sy'n sefydliadau datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli a chyrff anllywodraethol er mwyn cynllunio a hyrwyddo camau gweithredu, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael.

Er mwyn mynd i'r afael â masnachu mewn pobl, mae'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru wedi datblygu Cynllun Cyflawni sy'n cynnwys Amcanion Strategol (gweler Atodiad B).

**Y cynnydd hyd yn hyn**

Yn y flwyddyn gyntaf ers ei benodi, mae'r Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl wedi datblygu a chryfhau'r cysylltiadau ag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys sefydliadau datganoledig statudol a sefydliadau anstatudol a rhai yn y sector gwirfoddol, er mwyn hybu ymwybyddiaeth a chydgysylltu gweithgareddau i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl yng Nghymru. Rhai o'r camau a gymerwyd gyda'n partneriaid hyd yn hyn yw:

- sefydlu'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru;
- datblygu Cynllun Cyflawni'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru;
- sefydlu Fforymau Atal Masnachu mewn Pobl yng Ngwent, De Cymru a Bae'r Gorllewin;
- sefydlu swydd Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl Rhanbarthol Gogledd Cymru;

- darparu sesiynau hybu ymwybyddiaeth i randdeiliaid allweddol ledled Cymru;
- cyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer Uwch-swyddogion Ymchwilio;
- ail-lansio gwefan Atal Masnachu mewn Pobl Llywodraeth Cymru.

**Y Camau Nesaf**

Y camau nesaf fydd rhoi'r gwaith sydd wedi'i gyflawni'n barod ar sail gadarn a sicrhau bod y cynnydd yn parhau ar gyflawni'r Amcanion Strategol yng Nghynllun Cyflawni'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru (gweler Atodiad B).

Byddwn yn chwilio'n barhaus am arferion da ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar lefel gyfartal ledled Cymru. Mae masnachu mewn pobl yn drosedd ffiaidd a dim ond drwy gydweithio mewn partneriaeth y byddwn yn gwneud Cymru'n wlad sy'n elyniaethus tuag at fasnachu mewn pobl ac yn rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr masnachu mewn pobl.

# Pennod 1

## Masnachu mewn Pobl - Tueddiadau a'r Bygythiadau Diweddaraf



1.1 Mae masnachu mewn pobl yn drosedd difrifol ac yn gam dybryd yn erbyn hawliau dynol y dioddefwyr sydd wedi'u masnachu. Credir mai masnachu mewn pobl yw'r diwydiant troseddol sy'n tyfu gyflymaf yn y byd. Bob blwyddyn, bydd miloedd o ddynion, menywod a phlant yn syrthio i ddwylo masnachwyr, yn eu gwledydd eu hunain ac mewn gwledydd tramor. Mae masnachu mewn pobl yn effeithio ar bob gwlad yn y byd bron, drwy fod yn wlad y mae pobl yn cael eu masnachu ohoni, eu cludo drwyddi neu eu hanfon iddi.

1.2 Mae llawer yn ystyried bod masnachu mewn pobl yn 'drosedd cudd' ac yn cydnabod bod nifer yr achosion yn fwy na'r hyn a gofnodir. Gellir rhannu masnachu mewn pobl yn gategorïau fel a ganlyn:

- Caethiwed domestig
- Camfanteisio rhywiol
- Camelwa o lafur
- Ecsbloetio troseddol
- Casglu meinweoedd/organau dynol

1.3 Mae Cymru'n effro o hyd i'r bygythiad oddi wrth fasnachwyr mewn pobl a bwriad Llywodraeth Cymru yw gwneud Cymru'n wlad sy'n elyniaethus tuag at fasnachu mewn pobl a rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr masnachu mewn pobl.

1.4 Y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (MCC) yw'r dull cydnabyddedig ar gyfer cofnodi achosion o fasnachu mewn pobl. Mae'r broses hon yn cael ei rheoli gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU (CMPDU) sy'n rhan o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

1.5 Yn gyffredinol, er 2009 gwelwyd cynnydd sylweddol yng Nghymru, ac yn y DU, yn nifer y dioddefwyr dichonol oherwydd masnachu pobl sydd wedi'u hatgyfeirio at yr MCC. Cafwyd gwybod gan CMPDU fod y cynnydd hwn wedi parhau drwy gydol 2013 ac nad oes arwydd o newid yn y duedd hon.

1.6 Fodd bynnag, proses wirfoddol yw atgyfeirio achosion at yr MCC, heblaw am achosion sy’n ymwneud â phobl ifanc dan oed lle y mae’n orfodol gwneud hynny. Mae CMPDU wedi datgan bod llawer o ddioddefwyr sydd heb yn eu hatgyfeirio eu hunain yn wirfoddol am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys ofn dial ar eu teuluoedd, bygwth, trais, allgludo a chael eu hanfon i’r carchar.

1.7 Er bod cynnydd wedi digwydd, mae nifer yr achosion a gaiff eu hatgyfeirio at Fecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol CMPDU yn isel o hyd; yn 2012 roedd cyfanswm o 1,156 o achosion ledled y DU. Ymysg y rhain mae 34 o achosion a gofnodwyd yng Nghymru, ac roedd 10 o’r rhain yn ymwneud â phobl ifanc dan oed. Mae’r ystadegau troseddu yn is byth gan mai anaml y bydd troseddwyr yn cael eu cyhuddo o fasnachu mewn pobl ac yn 2012 nifer bach o achosion a oedd wedi mynd drwy’r System Cyfiawnder Troseddol yn ôl cofnodion Gwasanaeth Erlyn y Goron.

1.8 Felly ni ellir dibynnu ar yr ystadegau cyfredol i gael gwybodaeth ac adnabod tueddiadau er mwyn gwneud penderfyniadau. Mae’r mater hwn wedi’i gydnabod ledled y DU. Mae CMPDU wedi cytuno y bydd ystadegau ar gyfer Cymru o’r MCC yn cael eu dadgyfuno o hyn ymlaen er mwyn rhoi gwybodaeth fwy defnyddiol. Fodd bynnag, un flaenoriaeth amlwg yw gwella’r sylfaen dystiolaeth a chael ‘setiau data eilaidd’ i ategu’r ystadegau swyddogol hyn gan sefydliadau allweddol ledled Cymru. Mae’r dasg hon yn Amcan Strategol yng Nghynllun Cyflawni’r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru, i’w chyflawni gan y Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl (CAMMP).

1.9 Ers sefydlu’r MCC yn 2009, mae cyfran helaeth o’r achosion sydd wedi’u hatgyfeirio ato’n ymwneud â dioddefwyr o’r un gwledydd, sef Nigeria, Fiet-nam, Tsieina, Rwmania ac Albania. Fodd bynnag, yn yr Asesiad Strategol gan CMPDU ar gyfer 2012, nodwyd bod nifer sylweddol o’r achosion a atgyfeiriwyd yn ymwneud â dioddefwyr o Wlad Pwyl ac, yng Nghymru, roedd y rhan fwyaf o’r atgyfeiriadau’n gysylltiedig â’r wlad hon. Mae’r MCC wedi dangos hefyd fod cynnydd parhaus yn nifer yr achosion a atgyfeiriwyd am bobl ifanc dan oed o Fiet-nam sy’n cael eu hecsbloetio’n droseddol, am gamfanteisio rhywiol ar ferched dan oed o’r DU ac am gamelwa o lafur dynion o Ddwyrain Ewrop.

1.10 Cafwyd nifer o achosion amlwg mewn rhannau o Loegr a oedd yn ymwneud â chamfanteisio rhywiol ar fenywod ifanc sy’n agored i niwed gan grwpiau o ddynion. Er na chofnodwyd unrhyw achosion o’r fath yng Nghymru hyd yn hyn, mae’r wybodaeth am y duedd ddiweddaraf hon wedi’i thynnu i sylw’r holl sefydliadau sy’n ymwneud ag atal masnachu mewn pobl yng Nghymru.

1.11 Yn 2012, deliodd CMPDU ag atgyfeiriadau a oedd yn gysylltiedig â chamfanteisio rhywiol, camelwa o lafur, caethwasiaeth ddomestig, casglu meinweoedd/organau dynol ac ecsbloetio troseddol. Heblaw am gasglu meinweoedd/organau dynol, rhoddwyd gwybod am achosion o’r holl fathau

hyn o fasnachu mewn pobl yng Nghymru gan ddioddefwyr a oedd wedi'u hatgyfeirio at yr MCC.

1.12 Mae CMPDU wedi rhoi gwybod iddi ddod ar draws nifer o ddioddefwyr dichonol yn y DU, gan gynnwys rhai yng Nghymru, sydd wedi'u cludo drwy wledydd eraill yn Ewrop yn gyntaf, a bod rhai ohonynt wedi profi camfanteisio mewn gwledydd eraill cyn eu symud i'r DU. Mae'n hollbwysig bod asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU yn cydweithredu ledled Ewrop i adnabod y llwybrau cludo a ffefrir ac i atal a thorri ar draws gweithgareddau cludo. Mae nifer o lwybrau cludo wedi'u hadnabod eisoes a chamau wedi'u cymryd i leihau'r bygythiad. Ymhlith y rhain mae llwybrau i mewn ac allan a thrwy Gyprus, yr Iseldiroedd, Ffrainc, yr Eidal a Sbaen.

# Pennod 2

## Masnachu mewn Pobl yng Nghymru

2.1 Mae masnachu mewn pobl yn drosedd ffiaidd sy'n peri trallod i'r dioddefwyr ac yn effeithio ar ein cymunedau yng Nghymru. Mae'n cael ei ystyried gan lawer o bobl yng Nghymru a'r DU yn 'drosedd cudd' ac mae cydnabyddiaeth eang bod nifer yr achosion yn fwy na'r hyn a gofnodwyd am amrywiol resymau.

2.2 Fel y nodwyd cyn hyn, yn 2012 roedd Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU (CMPDU) wedi cofnodi bod 34 o achosion yng Nghymru wedi'u hatgyfeirio at y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (MCC) ac roedd 10 o'r achosion hyn yn ymwneud â phobl ifanc dan oed (gweler Atodiad C).

2.3 Cafwyd gwybod gan CMPDU, am y 34 o achosion yng Nghymru a atgyfeiriwyd i'r MCC, mai Gwlad Pwyl oedd y wlad yr oedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr sy'n oedolion yn hanu ohoni, ac mai nifer y dioddefwyr hynny oedd 6. Yn yr achosion a atgyfeiriwyd sy'n ymwneud â phobl ifanc dan oed, y wlad yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn hanu ohoni oedd Fiet-nam, a nifer y dioddefwyr hynny oedd 6.

2.4 Mae nifer yr achosion a gofnodwyd yng Nghymru sydd wedi'u hatgyfeirio at yr MCC yn codi o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n ymddangos y bydd y duedd hon yn parhau. Yn 2012 camfanteisio rhywiol oedd y math mwyaf cyffredin o gamfanteisio a gofnodwyd o hyd, a chamelwa o lafur oedd y math o fasnachu mewn pobl y cofnodwyd y nifer ail fwyaf o achosion ohono. Mae pryder cynyddol hefyd yng Nghymru y bydd y twf yn nifer y siopau trin ewinedd a siopau bwyd brys yn arwain at broblemau o ran masnachu mewn pobl yn y dyfodol. Gan fod y costau cyflog a'r prisiau am y gwasanaethau hyn yn isel, gallai hyn arwain at fwy o alw gan y cyhoedd, a'r posibilrwydd o gamfanteisio o ganlyniad i hyn.

2.5 Mae'r Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl (CAMMP) ar gyfer Cymru wedi meithrin perthynas waith dda â CMPDU a bellach mae data am Gymru o'r MCC yn cael eu dadgyfuno o ddata'r DU. Mae crynodeb isod o'r achosion a atgyfeiriwyd at yr MCC yn y DU yn 2012:

| Y Sefyllfa yn y DU yn 2012 - Atgyfeiriadau a gofnodwyd gan y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (MCC) | Cyfanswm | % yr atgyfeiriadau at yr MCC | % y newid er 2011-2012 |
|---|---|---|---|
| **Lloegr** | **1,042** | **88%** | **31%** |
| **Gogledd Iwerddon** | **15** | **1%** | **- 63%** |
| **Yr Alban** | **95** | **8%** | **2%** |
| **Cymru** | **34** | **3%** | **48%** |
| **CYFANSWM** | **1,186** | **100%** | **25%** |

2.6 Mae proses yr MCC yn wirfoddol ar gyfer dioddefwyr masnachu mewn pobl sy'n oedolion ond yn orfodol ar gyfer pobl ifanc dan oed. Oherwydd hyn, mae nifer gwirioneddol y dioddefwyr sydd wedi'u cofnodi yn cael ei ystumio ar hyn o bryd gan nad oes ffordd o gofnodi'r oedolion hynny nad ydynt yn dymuno eu hatgyfeirio eu hunain yn wirfoddol at broses yr MCC. Rhai o'r rhesymau am hyn yw:

- ofn bygythiadau gan y masnachwyr yn erbyn y dioddefwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Yn y gorffennol mae hyn wedi'i amlygu drwy drais a hyd yn oed lladd er mwyn rheoli dioddefwyr;
- ofn cael eu carcharu;
- ofn cael eu hallgludo;
- y canfyddiad bod swyddogion a Sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf yn llwgr ac yn cael eu talu gan y masnachwyr;
- cywilydd ar ran y dioddefwr o fod wedi cael ei fasnachu; a/neu
- nad yw'r dioddefwr yn dymuno cydweithredu a'i fod yn hytrach am symud ymlaen â'i fywyd a dychwelyd adref.

2.7 Mae nifer o'r dioddefwyr sy'n cael eu hatgyfeirio at yr MCC yn amharod i dystio yn erbyn masnachwyr am eu bod yn ofni dial.

2.8 Ym Mawrth 2013, cyflwynodd y CAMMP ddadl lwyddiannus i Grŵp Trosolwg ac Adolygu'r Swyddfa Gartref ar yr MCC o blaid gwneud dau sefydliad yng Nghymru, Bawso a New Pathways, yn Sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf. Ers eu gwneud yn Sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf ym Mawrth 2013, mae'r ddau sefydliad wedi rhoi gwybod iddynt dderbyn atgyfeiriadau gan ddioddefwyr na fyddent wedi gwneud hynny'n wirfoddol fel arall. Yn ogystal â sicrhau bod y dioddefwyr hyn yn cael cymorth mawr ei angen, drwy gymryd rhan ym mhroses yr MCC ceir data a fydd o gymorth i ddod â masnachwyr o flaen eu gwell ac a fydd hefyd yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth.

2.9 Y ffaith nad oedd sylfaen dystiolaeth gadarn i ddangos graddau'r masnachu mewn pobl oedd un o'r prif bryderon a fynegwyd gan y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru pan sefydlwyd ef yn Ionawr 2013. Ers hynny mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi datblygu Cynllun Cyflawni gan enwebu aelod i arwain ar bob un o'r Amcanion Strategol. Mae'r CAMMP yn arwain ar yr Amcan Strategol o ddatblygu sylfaen dystiolaeth gan ddefnyddio setiau data 'cynradd ac eilaidd' a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a llywio camau yn y dyfodol i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl.

2.10 Yr amcanion strategol eraill y mae aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth yn eu hyrwyddo yw: hybu ymwybyddiaeth a hyfforddiant; rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth; datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu; a llwybr gofal ar gyfer dioddefwyr.

2.11 Er bod camsyniad o hyd nad yw masnachu mewn pobl yn broblem yng Nghymru, mae'r sylw a gafwyd yn y cyfryngau'n ddiweddar i achosion amlwg

ac arestiadau yn deffro’r genedl i’r ffaith ei fod yn digwydd yma ac nid yn y dinasoedd mawr yn unig.

2.12 Yng ngwanwyn 2013 achubodd Heddlu Gwent ddyn 43 blwydd oed o fferm yn ardal Maerun yng Nghasnewydd. Roedd wedi’i gadw’n gaeth am 13 blynedd mewn amgylchiadau gwael ac wedi’i orfodi i weithio’n ddi-dâl. O ganlyniad i hyn, lansiwyd ‘Ymgyrch Imperial’ gan Heddlu Gwent ac, ym Medi 2013, cafwyd arestiadau a chyhuddwyd tri dyn o droseddau sy’n ymwneud â masnachu mewn pobl, ac achubwyd nifer o ddynion eraill. Llwyddodd yr ymgyrch hon drwy ddefnyddio dull amlasiantaethol a oedd yn cynnwys Heddlu Gwent, Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, Heddluoedd eraill, CMPDU, yr RSPCA a’r Groes Goch.

2.13 Mae’r CAMMP wedi cysylltu’n rheolaidd â’r Uwch-swyddog Ymchwilio yn Heddlu Gwent sy’n arwain ‘Ymgyrch Imperial’ a chynhelir ôl-drafodaeth amlasiantaethol i Gymru gyfan ar yr achos hwn er mwyn rhannu’r arferion da a’r gwersi a ddysgwyd ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol ac i ddibenion hyfforddi.

2.14 Ar adeg ysgrifennu’r Adroddiad hwn, mae pob un o’r pedwar heddlu yng Nghymru’n ymchwilio i achosion o fasnachu mewn pobl.



# Pennod 3

## Rôl Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl Llywodraeth Cymru

### Cefndir

3.1 Er mwyn mynd i'r afael â masnachu mewn pobl, rhaid cael cydweithredu ar draws ffiniau'r pedair Llywodraeth yn y DU. Mae'r ymateb yng Nghymru wedi'i atgyfnerthu drwy benodi Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl (CAMMP).

3.2 Llywodraeth Cymru yw'r unig Lywodraeth yn y DU sy'n cyflogi CAMMP. Crëwyd y swydd yn sgîl gwaith gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl o dan gadeiryddiaeth Joyce Watson AC, a dynnodd sylw at y broblem o fasnachu mewn pobl yng Nghymru. Cafwyd ymrwymiad i greu'r swydd yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

3.3 Mae'r swydd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i sefydlu er 4 Ebrill 2011. Stephen Chapman yw'r ail CAMMP a dechreuodd yn ei swydd ym mis Tachwedd 2012.

3.4 Yn wreiddiol roedd y swydd o dan adain Heddlu Gwent, ac roedd y CAMMP yn adrodd yn uniongyrchol i'r Dirprwy Brif Gwnstabl. Pan ddaeth y swydd yn wag ym Mawrth 2012, penderfynodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, Carl Sargeant AC, y dylai'r swydd gael ei lleoli o fewn Llywodraeth Cymru.

3.5 Bellach mae'r CAMMP yn rhan o'r Tîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig yn Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn caniatáu i'r rôl gael ei hintegreiddio'n well â'r agenda gyffredinol ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig, gan gynnwys y cynigion yn y ddeddfwriaeth arfaethedig i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

### Ymgysylltu yn y DU a chyfrannu at agendâu eraill

3.6 Mae'r CAMMP yn cynrychioli Cymru ar nifer o grwpiau ar gyfer y DU: Bwrdd Lleihau Bygythiadau'r DU, Bwrdd Strategaeth Masnachu mewn Pobl y DU, Grŵp Cyd-strategaeth y Swyddfa Gartref (cyrff anllywodraethol), Grŵp Trosolwg ac Adolygu Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (MCC) y Swyddfa Gartref, a Fforwm Rhannu Gwybodaeth am Fasnachu mewn Plant y Swyddfa Gartref. Yn ogystal â hyn, mae'r CAMMP yn aelod o Grŵp Rheoli Ffiniau Cymru, Bwrdd CONTEST Cymru a nifer o grwpiau strategol a gweithredol allweddol eraill.

3.7 Mae'r CAMMP yn cwrdd yn rheolaidd â'i gymheiriaid yn y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, y Weinyddiaeth Gyfiawnder,

Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a phartneriaid eraill yn y DU i drafod a rhannu arferion da ar fynd i'r afael â masnachu mewn pobl.

**Y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol**

3.8 Y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol sy'n cadw trosolwg ar ymdrechion y DU i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl. Cadeirydd y Grŵp yw'r Gweinidog dros Ddiogelwch yn y Swyddfa Gartref ac mae'n cynnwys Gweinidogion o Adrannau Llywodraeth eraill yn Whitehall, o Swyddfa Cymru a Swyddfa'r Alban, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru. Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth fydd yn bresennol ar ran Llywodraeth Cymru, a chaiff gymorth gan y CAMMP. Bydd y Grŵp yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol yn Atodiad D.

**Sylw gan y Cyfryngau**

3.9 Cafwyd sylw cadarnhaol sylweddol gan y cyfryngau ers penodi'r CAMMP. Mae'r sylw hwn yn parhau ac mae'n cynnwys cyfweliadau ar y teledu a'r radio ac mewn papurau newydd a chylchgronau ar gyfer y cyfryngau lleol a chenedlaethol a ledled y DU.

**Cyfrifoldebau eraill**

3.10 Mae'r CAMMP wedi ymgymryd â chyfrifoldeb arweiniol yn ddiweddar o fewn Tîm Troseddu yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig Llywodraeth Cymru ynghylch Enwaedu Benywod, Trais er Anrhydedd, Priodasau dan Orfod a Stelcio. Er mwyn ei helpu i ymgymryd â'r ffrydiau gwaith hyn, ymunodd secondai â'r Tîm o Bartneriaeth Ymfudo Cymru ym mis Tachwedd 2013 ar secondiad dwy flynedd.

3.18 Ymhlith cyfrifoldebau eraill y CAMMP y mae briffio'r Gweinidog, hybu ymwybyddiaeth o fasnachu mewn pobl a chyfrannu at ddatblygu polisi ar draws Llywodraeth Cymru.

# Pennod 4

## Grŵp Arweinyddiaeth a Chynllun Cyflawni ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru

4.1 Sefydlwyd y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru i ddarparu arweinyddiaeth strategol er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau a llywio gweithgareddau i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl yng Nghymru (gweler Atodiad A). Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth yn cynnwys penderfynwyr strategol allweddol o sefydliadau datganoledig statudol a sefydliadau datganoledig anstatudol ac o sefydliadau eraill gan gynnwys rhai yn y sector gwirfoddol.

4.2 Y bwriad yw y bydd y Grŵp Arweinyddiaeth yn darparu tystiolaeth am faint y broblem, yn pennu cyfeiriad strategol yr agenda yng Nghymru, yn hybu ac yn hyrwyddo camau i rannu arferion da rhwng partneriaid ac yn adrodd i'r Gweinidog ar gynnydd.

4.3 Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth mewn sefyllfa unigryw lle y gall ychwanegu gwerth drwy gydgysylltu gwaith rhwng sefydliadau datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli a sefydliadau anllywodraethol i gynllunio a hyrwyddo camau gweithredu, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael.

4.4 Cadeirydd y Grŵp Arweinyddiaeth yw Pennaeth Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru, Karin Phillips, a'i aelodau yw:

- Y Swyddfa Gartref gan gynnwys Mewnfudo a Gorfodi/Llu Ffiniau'r DU
- ACPO Cymru
- Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Uned Wybodaeth Ranbarthol Heddluoedd Cymru
- Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Byrddau Iechyd Lleol Cymru
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Fforwm Cyrff Anllywodraethol ar Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru
- Bawso
- Comisiynydd Plant Cymru
- Adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru

4.5 Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru wedi datblygu Cynllun Cyflawni i wireddu nod Llywodraeth Cymru o wneud Cymru'n wlad sy'n elyniaethus tuag at fasnachu mewn pobl ac yn

rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr sydd wedi'u masnachu (gweler Atodiad B). Mae aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi mabwysiadu'r Amcanion Strategol canlynol:

- datblygu sylfaen dystiolaeth gan ddefnyddio setiau data 'cynradd ac eilaidd'
- cael gwybodaeth well i'r Grŵp Arweinyddiaeth ar raddau'r Masnachu mewn Pobl yng Nghymru
- cwmpasu 'Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi' ar gyfer yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru ar hyn o bryd ac anghenion y dyfodol
- datblygu Protocolau ar gyfer Rhannu Gwybodaeth/Cudd-wybodaeth
- datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer Masnachu mewn Pobl yng Nghymru
- datblygu Llwybr Gofal ar gyfer dioddefwyr yng Nghymru



# Pennod 5

## Y cynnydd hyd yn hyn

5.1 Yn y flwyddyn gyntaf ers ei benodi ym mis Tachwedd 2012, mae'r CAMMP presennol, Steve Chapman, wedi ffurfio cysylltiadau ag amrywiaeth eang o unigolion, rhwydweithiau a sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau datganoledig statudol a sefydliadau datganoledig anstatudol, sefydliadau eraill a chyrff anllywodraethol, i hybu ymwybyddiaeth a chydgysylltu gweithgareddau i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl yng Nghymru.

5.2 Sefydlwyd y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru ac mae wedi datblygu Cynllun Cyflawni i wireddu nod Llywodraeth Cymru o wneud Cymru'n wlad sy'n elyniaethus tuag at fasnachu mewn pobl ac yn rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr sydd wedi'u masnachu (gweler Atodiad B).

### Y sylfaen dystiolaeth

5.3 Nodwyd bod casglu data a rhannu cudd-wybodaeth yn faes allweddol i'w wella yn adroddiad blynyddol cyntaf y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Fasnachu mewn Pobl a gyflwynwyd i'r Senedd yn 2012. Rydym yn cydnabod bod anawsterau ynghylch casglu data ac yn credu nad yw'r ystadegau presennol, sydd wedi'u seilio ar atgyfeiriadau i MCC CMPDU yn 2012, ond yn cynrychioli cyfran fach o gyfanswm yr achosion. Felly rydym yn cydnabod bod angen datblygu sylfaen dystiolaeth ar faint y masnachu mewn pobl yng Nghymru i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau a llywio gweithgareddau yn y dyfodol.

5.4 Datblygu sylfaen dystiolaeth yw un o Amcanion Strategol y Cynllun Cyflawni ac mae'r CAMMP yn cydweithio â phartneriaid i lunio 'setiau data cynradd ac eilaidd' a fydd yn cyfrannu at ddangos graddau'r masnachu mewn pobl yng Nghymru. Mae Uwch-swyddog Ymchwil yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn helpu i bennu setiau data eilaidd.

5.5 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu 'Adolygiad o Wasanaethau' sy'n cwmpasu masnachu mewn pobl. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gyflawni gan Brifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn ac mae'r canfyddiadau i'w cyhoeddi ar ddechrau 2014. Mae'r CAMMP hefyd wedi'i gyfethol i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddata sydd wedi'i sefydlu gan Grŵp Cyd-strategaeth y Swyddfa Gartref i ystyried y dull o gasglu data ar fasnachu mewn pobl ledled y DU ac mae'n rhannu'r gwaith sy'n cael ei wneud yma yng Nghymru.

### Hyfforddiant a hybu ymwybyddiaeth

5.6 Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar gyfer yr hyfforddiant sy'n cael

ei ddarparu ac i sicrhau y bydd yr hyfforddiant yn gyson ledled Cymru yn y dyfodol.

5.7 Mae sesiynau hybu ymwybyddiaeth yn cael eu darparu i randdeiliaid allweddol ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, yr Heddlu a Phartneriaid Cyfiawnder Troseddol a chyrff anllywodraethol. Y bwriad yw y bydd hyfforddiant hybu ymwybyddiaeth o'r fath yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant sefydlu ar gyfer y sefydliadau hyn yn y dyfodol.

5.8 Mae'r CAMMP wedi cydweithio hefyd â'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid, gan gynnwys cyrff anllywodraethol, er mwyn datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer Uwch-swyddogion Ymchwilio. Mae'r rhaglen ddeuddydd hon yn cael ei darparu ar hyn o bryd gan Ganolfan Hydra ym mhencadlys Heddlu De Cymru i Uwch-swyddogion Ymchwilio yn Heddlu De Cymru, cyn ei darparu i'r tri heddlu arall yng Nghymru. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i wneud hyn ac mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) wedi cydnabod y rhaglen hyfforddi'n enghraifft o arfer da a fydd yn cael ei rhaeadru ledled y DU.

5.9 Ym Mehefin 2013 trefnodd y CAMMP ymweliad â CMPDU ar gyfer Ymatebwyr Cyntaf yr MCC yng Nghymru, Arweinwyr Strategol a Phwyntiau Cyswllt Unigol y pedwar Heddlu yng Nghymru a Chydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr ymweliad cyflwynwyd y briffiad diweddaraf ar gudd-wybodaeth am fasnachu mewn pobl yng Nghymru a'r DU gan Bennaeth CMPDU, cafwyd gwybodaeth am rôl y Cynghorwyr Tactegol ac eglurhad o broses yr MCC a chyfle i drafod materion â staff.

**Mentrau lleol**

5.10 Yn 2012 cyflwynodd Prif Weithredwr Ynys Môn gais ar y cyd ar ran Prif Weithredwyr y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid allweddol eraill i Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Roedd y cais yn un am benodi Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru i gydgysylltu gweithgareddau ledled Gogledd Cymru ac am sefydlu Grŵp Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl. Cymeradwywyd y cais ac, ar ôl proses recriwtio agored, penodwyd James Coy i'r swydd a dechreuodd ar ei waith yn Nhachwedd 2013. Swydd 'Pathfinder' yw hon a fydd yn cynnig ffordd o ymchwilio i effeithiolrwydd gweithredu ar lefel ranbarthol i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl. Os bydd yn llwyddiannus, caiff ei chyflwyno mewn rhannau eraill o Gymru.

5.11 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn datblygu menter amlasiantaethol i ddelio â'r cynnydd posibl mewn masnachu mewn pobl yn yr ynys mewn cysylltiad â phorthladd Caergybi, diwydiannau gwledig ac, yn benodol, y cynllun arfaethedig i adeiladu gorsaf bŵer niwclear a fydd yn cyflogi 6-8,000 o weithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r CAMMP yn cydweithio â Phrif Weithredwr Ynys Môn i hyrwyddo'r fenter amlasiantaethol hon.

5.12 Roedd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, Mohammed Mehmet, wedi'i enwebu gan y cyn Weinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn Hyrwyddwr ar gyfer y gwaith hwn. Wrth gynrychioli Gogledd Cymru ar y Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus, mae wedi hybu ymwybyddiaeth o fasnachu mewn pobl yng Ngogledd Cymru, gan adeiladu ar sail y profiad yn Ynys Môn. Bydd Mr Mehmet yn gwneud rhagor i ledaenu'r gwersi a ddysgwyd ymhlith Prif Weithredwyr yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Gwasanaethau Cyhoeddus eraill. Mae'r CAMMP yn cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr i hybu'r gwaith hwn.

5.13 Yn sgîl llwyddiant Grŵp Ymgynghori Gwent ar Fasnachu mewn Pobl, mae Fforymau Atal Masnachu mewn Pobl wedi'u sefydlu bellach ar gyfer Caerdydd, De Cymru a Bae'r Gorllewin. Pwrpas y Fforymau hyn yw hybu ymwybyddiaeth, rhannu arferion da ynghylch gwybodaeth/cudd-wybodaeth a hyrwyddo hyfforddiant a mentrau i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl a chynorthwyo dioddefwyr. Mae aelodaeth y Fforymau Rhanbarthol yn adlewyrchu'r Grŵp Arweinyddiaeth gan eu bod yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n gorfodi'r gyfraith, sefydliadau cymorth a chyrff anllywodraethol. Mae Fforymau Atal Masnachu mewn Pobl yn cael eu datblygu'n awr ar gyfer Gogledd Cymru ac ardal Dyfed-Powys.

5.14 Mae Fforwm Atal Masnachu mewn Pobl Caerdydd wedi treialu Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol ar Fasnachu mewn Pobl ac, ar ôl cael adborth cadarnhaol, bydd yn defnyddio'r broses hon ym mhob achos yn y dyfodol lle y mae posibilrwydd bod rhywun wedi dioddef o ganlyniad i fasnachu mewn pobl. Mae'r cynadleddau hyn yn cael eu harwain gan Bawso ac yn cynnwys nifer o bartneriaid amlasiantaethol. Mae'r CAMMP yn rhaeadru'r arfer da hwn ledled Cymru.

**Gweithgareddau gweithredol**

5.15 Mae'r CAMMP yn cydweithio â chymheiriaid ar fenter sy'n cael ei harwain gan Wasanaeth Erlyn y Goron i gyflwyno Timau Ymchwilio ar y Cyd ar gyfer achosion o fasnachu mewn pobl. Ymhlith y partneriaid eraill y mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yr Heddlu, Gwasanaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref a'r Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau.

5.16 Ym Mawrth 2013 lansiodd ACPO Cymru a Lloegr 'Ymgyrch Eagle'. Amcan yr ymgyrch hon yw hybu ymwybyddiaeth, derbyn mwy o wybodaeth a gwella'r cydgysylltu a'r gweithgareddau gweithredol yn yr holl Heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Mae pob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru yn cynnal gweithrediadau i atal masnachu mewn pobl. Mae'r CAMMP yn cydweithio â'r Pwynt Cyswllt Unigol ym mhob un o'r Heddluoedd ac yn sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu a'u rhaeadru ledled Cymru.

**Cyfathrebu**

5.17 O dan Gynllun Cyflawni'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru, mae tudalennau gwe Llywodraeth Cymru ar fasnachu mewn pobl wedi'u hadolygu a'u diweddaru i greu un pwynt cyfeirio

ar gyfer gwybodaeth i weithwyr proffesiynol, ymarferwyr a'r cyhoedd. Mae'r tudalennau gwe yn 'ddogfen fyw' ac mae'r swyddog CAMMP sydd newydd ei benodi'n gyfrifol am ei diweddaru.

5.18 Er mwyn nodi Diwrnod Gwrth-Gaethwasiaeth (dydd Gwener 18 Hydref 2013) cynhaliwyd Cynhadledd Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghanolfan Gynadledda Catrin Finch ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Roedd mwy na 100 o ymarferwyr yn bresennol yn y gynhadledd lwyddiannus hon a chyflwynwyd y prif anerchiad gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.

# Pennod 6

## Y Camau Nesaf

6.1 camau nesaf fydd rhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud eisoes ar sail gadarn a sicrhau bod y cynnydd yn parhau ar gyflawni'r Amcanion Strategol yng Nghynllun Cyflawni'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru. Rhan o'r gwaith hwn fydd parhau i ddatblygu sylfaen dystiolaeth o setiau data 'cynradd ac eilaidd', hybu ymwybyddiaeth a darparu rhaglenni hyfforddi.

6.2 Drwy sicrhau bod dau Sefydliad Ymatebwyr Cyntaf ar waith, sef Bawso a New Pathways, rhagwelir y bydd mwy o ddioddefwyr masnachu mewn pobl yn ddigon hyderus i'w hatgyfeirio eu hunain at y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol ac yn cael cymorth i wneud hynny. Bydd hyn yn rhoi darlun mwy cywir o raddau'r masnachu mewn pobl yng Nghymru ac yn darparu sylfaen dystiolaeth i'r Grŵp Arweinyddiaeth i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau a llywio gweithgareddau i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl.

6.3 Byddwn yn rhoi cymorth i ddatblygu mwy o Fforymau Atal Masnachu mewn Pobl Rhanbarthol ledled Cymru gan gynnwys, yn benodol, y rheini sydd wedi'u cynnig ar gyfer ardal Dyfed-Powys a Gogledd Cymru.

6.4 Parheir i ddatblygu Tudalen We Llywodraeth Cymru ar Atal Masnachu mewn Pobl a'i hyrwyddo'n bwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer gwybodaeth am Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru a thu hwnt.

6.5 Bydd y CAMMP yn cydweithio â Chydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl Rhanbarthol Gogledd Cymru i sefydlu Grŵp Cyflawni Gogledd Cymru ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl ac i ddatblygu Cynllun Cyflawni i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl yng Ngogledd Cymru. Ar ôl dysgu'r gwersi o'r prosiect "Pathfinder" hwn, rhoddir ystyriaeth hefyd i ffyrdd o ariannu a phenodi rhagor o Gydgysylltwyr Rhanbarthol.

6.6 Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) wedi lansio 'Ymgyrch Eagle' ac mae pob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru'n cynnal gweithrediadau ataliol a rhagweithiol i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl. Mae'r CAMMP yn cydweithio â'r Pwynt Cyswllt Unigol ym mhob un o'r Heddluoedd, gan hwyluso'r gwaith o rannu arferion da ledled Cymru a thu hwnt.

6.7 Bydd y rhaglen hyfforddi amlasiantaethol arbenigol ar gyfer Uwch-swyddogion Ymchwilio, a ddarperir gan Ganolfan Hydra ym mhencadlys Heddlu De Cymru, yn cael ei hymestyn ymhellach i gynnwys yr holl Uwch-swyddogion Ymchwilio yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod Uwch-swyddogion Ymchwilio wedi'u hyfforddi i ymchwilio i achosion o fasnachu mewn pobl ac i ddod â'r cyflawnwyr o flaen eu gwell gan atafaelu eu hasedau.

6.8 Ar 7 Hydref 2013 lansiwyd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA). Credir mai masnachu mewn pobl yw'r trosedd ail fwyaf cyffredin ledled y byd, ar ôl masnachu mewn cyffuriau, a'i fod yn cynnwys masnachu plant ac oedolion i mewn ac allan o'r DU, ac mae'r NCA wedi datgan mai hon fydd un o'i blaenoriaethau allweddol. Gan fod dioddefwyr hefyd yn cael eu masnachu o fewn Cymru a'r DU, bydd yr NCA yn gallu cydweithio'n agos â'r CAMMP i ddelio â'r mater hwn yng Nghymru.

6.9 Ar 17 Hydref 2013, roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn bresennol mewn Cyfarfod Eithriadol o'r Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Fasnachu mewn Pobl yn 10 Downing Street a gafodd ei gadeirio gan y Prif Weinidog. Eglurodd y Prif Weinidog gynlluniau ar gyfer Mesur Caethwasiaeth Fodern y bwriedir ei gyflwyno ym Mai 2014. Cynnwys arfaethedig y mesur yw:

- Cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol
- Cyflwyno Comisiynydd Atal Caethwasiaeth
- Cyflwyno gorchmynion atal masnachu mewn pobl
- Ystyriaethau eraill i gryfhau ymrwymiad y DU i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl gan gynnwys:

    - Cadwynau cyflenwi tryloyw mewn cwmnïau
    - Rhoi mwy o bwerau i'r Heddlu i fyrddio, ymyrryd a chyfarwyddo llongau ar y môr mawr
    - Defnyddio asedau masnachwyr sydd wedi'u hatafaelu i gynnal gweithgareddau i atal masnachu mewn pobl
    - Archwilio'r dulliau llywodraethu ar gyfer masnachu mewn pobl gan ystyried y dichonolrwydd o gyflwyno rhwydwaith o gydgysylltwyr rhanbarthol i gynorthwyo'r Comisiynydd
    - Sefydlu tasglu rhithwir i hybu gweithrediadau lleol a rhanbarthol i atal masnachu mewn pobl

6.10 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd yn ddiweddar ar Fasnachu mewn Pobl. Edrychwn ymlaen at gydweithio â Llywodraeth y DU a rhannu mwy o'n profiad o'r gwaith sydd wedi'i wneud yng Nghymru yn y maes pwysig hwn yn y blynyddoedd diwethaf.

# Atodiad A

## Cylch Gorchwyl y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru

Bydd y Grŵp yn darparu arweinyddiaeth a bydd yn llais 'dylanwadu' strategol o blaid nod Llywodraeth Cymru o wneud Cymru'n wlad sy'n elyniaethus tuag at fasnachu mewn pobl a rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr sydd wedi'u masnachu.

Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru yn cyflawni hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Bod yn bwynt cyfeirio ar faterion sy'n ymwneud â masnachu mewn pobl yng Nghymru
- Gweithio'n gydweithredol i hybu ymwybyddiaeth o fasnachu mewn pobl yng Nghymru
- Darparu cyfarwyddyd a chyngor i'r Grwpiau Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl
- Darparu data ystadegol a datblygu ffyrdd ystyrlon o ddadansoddi data
- Hyrwyddo a rhaeadru arferion da ledled Cymru
- Hyrwyddo ymchwil a gwerthuso
- Estyn allan at sefydliadau a chymunedau nad ydym wedi cysylltu â nhw eto

### Aelodaeth y Grŵp

- Drwy wahoddiad y Grŵp Arweinyddiaeth

### Cynghorwyr/Sylwedyddion

- Yn ôl yr anghenion sydd wedi'u nodi gan y grŵp
- Ceir gwahodd 2 sylwedydd ar y mwyaf i gyfarfodydd y grŵp

### Amlder a hyd y cyfarfodydd

- Chwarterol

**Atodiad B**

Tudalen y pecyn 44

# Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru

# Cynllun Cyflawni

## Cyflawni'r Strategaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru

## 2013 – 2014

Y Cynllun Cyflawni ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru yw'r fframwaith i'w ddefnyddio gan bartneriaid allweddol i gyfrannu at wneud Cymru'n wlad sy'n elyniaethus tuag at fasnachu mewn pobl ac yn cynorthwyo dioddefwyr sydd wedi'u masnachu.

## Cynnwys


1. Cyflwyniad a diben
2. Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru
3. Cynllun Gweithredu
4. Monitro a gwerthuso

Atodiad A – Cylch Gorchwyl y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru
Atodiad B – Ystadegau'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Cymru 2012


***(Sylwer: Y rhifau tudalen yw'r rhai ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol hwn ac nid dogfen y Cynllun Cyflawni)***

# 1. Cyflwyniad a Diben

### *Cefndir: Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru*

1.1. Er mwyn mynd i'r afael â masnachu mewn pobl, rhaid cael cydweithredu ar draws ffiniau'r pedair Llywodraeth yn y DU. Mae'r ymateb yng Nghymru wedi'i atgyfnerthu drwy benodi Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl (CAMMP). Nod y rôl yw gwneud Cymru'n wlad sy'n elyniaethus tuag at Fasnachu mewn Pobl a chydgysylltu'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr.

1.2. Mae masnachu mewn pobl yn cael ei ystyried yn 'drosedd cudd' a derbynnir yn gyffredinol fod nifer yr achosion yn fwy na'r hyn a gofnodir. Y mathau o fasnachu mewn pobl yw:

- Caethiwed domestig
- Camfanteisio rhywiol
- Camfanteisio ar blant
- Camelwa o lafur
- Ecsbloetio troseddol
- Casglu meinweoedd/organau dynol



### *Pwrpas y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru*

1.3.1. Mae Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru wedi'i sefydlu sy'n cynnwys penderfynwyr strategol allweddol mewn sefydliadau datganoledig statudol a sefydliadau datganoledig anstatudol a sefydliadau eraill gan gynnwys y sector gwirfoddol. Nod y Grŵp Arweinyddiaeth yw darparu sylfaen dystiolaeth ar faint y problemau, pennu cyfeiriad strategol yr agenda yng Nghymru, helpu ac annog Grwpiau Cyflawni Rhanbarthol i rannu arferion da â phartneriaid ac adrodd ar gynnydd i'r Gweinidog. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp ar ddydd Mercher 13 Chwefror 2013. Defnyddir y Cynllun Cyflawni hwn i fonitro a gwerthuso gweithgareddau ar sail Cynllun Gweithredu (gweler adran 3) er mwyn adrodd ar y cynnydd ar gyflawni amcanion strategol y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru.

1.3.2. Bydd Grwpiau Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yn cael eu sefydlu yng Ngwent, De Cymru, Dyfed Powys, Gogledd Cymru a Bae'r Gorllewin. Bydd y Grwpiau Cyflawni Rhanbarthol yn gyfrifol am weithgareddau gweithredol a

byddant yn cwrdd bob mis i adrodd ar gynnydd. Byddant hefyd yn cyflawni swyddogaeth rhannu gwybodaeth/cudd-wybodaeth. Bydd aelodaeth y Grwpiau Cyflawni Rhanbarthol yn adlewyrchu aelodaeth y Grŵp Arweinyddiaeth ac yn cynnwys cynrychiolwyr o lefelau gweithredol y priod sefydliadau.

1.4. Yng Nghymru bydd y strategaeth i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl yn cael ei chyflawni drwy:

- Hybu ymwybyddiaeth
- Atal
- Gorfodi
- Cynorthwyo dioddefwyr



## 2. Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru

2.1 Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer mynd i'r afael â masnachu mewn pobl yng Nghymru. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru mewn sefyllfa unigryw lle y gall ychwanegu gwerth drwy gydgysylltu camau gweithredu rhwng partneriaid sy'n sefydliadau datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli a sefydliadau anllywodraethol er mwyn cynllunio a hyrwyddo camau gweithredu yng Nghymru, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael. Mae'r Cynllun Cyflawni yn ategu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu ac adrodd ar gamau i ddelio â masnachu mewn pobl yng Nghymru.

2.2 Pennaeth Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru sy'n cadeirio'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru. Mae'n dod ag arweinwyr y partneriaid perthnasol yng Nghymru ynghyd, gan gynnwys Is-adrannau eraill o Lywodraeth Cymru, ACPO Cymru, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, Uned Wybodaeth Ranbarthol Cymru, Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau, y Swyddfa Gartref (gan gynnwys Mewnfudo a Gorfodi), Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Byrddau Iechyd Lleol Cymru, Awdurdodau Lleol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Cyrff Anllywodraethol ar Atal Masnachu mewn Pobl, Bawso a Chomisiynydd Plant Cymru. Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru yn Atodiad A.

2.3 Un o nodau'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru yw darparu sylfaen dystiolaeth i ddangos graddau'r masnachu mewn pobl yng Nghymru. Ar hyn o bryd, dim ond ystadegau'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol sydd ar gael, ac nid yw'r rhain yn ddigon ar eu pen eu hunain i ddangos maint y broblem hon er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar weithgareddau sydd wedi'u seilio ar wybodaeth. Mae ystadegau'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn 2012 yn Atodiad B.

## 3. Cynllun gweithredu

3.1. Fel y nodwyd ym mharagraff 1.3, mae'r cynllun gweithredu hwn yn disgrifio'r holl gamau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion strategol. Bydd y camau hyn yn cael eu harolygu gan y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru.

3.2. Bydd y gallu i gyflawni'r Cynllun Gweithredu hwn yn dibynnu'n helaeth ar gwblhau'r camau gweithredu gan yr holl bartneriaid perthnasol. Mae hanes o weithio cadarn mewn partneriaeth yng Nghymru a bydd hyn yn ffactor hanfodol ar gyfer sicrhau llwyddiant wrth weithredu'r cynllun.

| Amcanion Strategol | Camau â Blaenoriaeth | Sut y cyflawnir hyn ac a yw'n dibynnu ar gamau eraill? | Perchennog | Amserlen | Dyddiad Adolygu | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Datblygu sylfaen dystiolaeth gan ddefnyddio setiau data 'cynradd ac eilaidd' er mwyn rhoi gwybodaeth well i'r Grŵp Arweinyddiaeth am raddau'r Masnachu mewn Pobl yng Nghymru** | Datblygu'r data perthnasol sydd ar gael i alluogi'r Grŵp Arweinyddiaeth i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth well a llywio gweithgareddau i fynd i'r afael â Masnachu mewn Pobl yng Nghymru | Cydweithio â phartneriaid mewn sefydliadau datganoledig, rhai sydd heb eu datganoli a sefydliadau eraill a chyrff anllywodraethol<br><br>Pwyntiau Cyswllt Unigol:<br><br>Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU – Liam Vernon<br><br>ACPO Cymru – Jeff Farrar /Prif Gwnstabl Heddlu Gwent<br><br>Y Swyddfa Gartref – Mewnfudo a Gorfodi - Abigail Corbett<br><br>Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru – Nathan Cook<br><br>Gwasanaeth Erlyn y Goron | Stephen Chapman Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl Llywodraeth Cymru<br><br>• Papur sefyllfa wedi'i gyflwyno ym Mehefin 2013 i'r Grŵp Arweinyddiaeth a mwy o waith ymchwil wedi'i gomisiynu gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (GGD) Llywodraeth Cymru. Robert Willis Uwch-swyddog Ymchwil (GGD) wedi ymgymryd â'r gwaith a bydd yn llunio adroddiad ar gyfer cyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd i | Erbyn Tachwedd 2013 | 31 Hydref 2013 | GWYRDD |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymru – Kim-Ann Williamson<br><br>Ymddiriedolaeth Prawf Cymru – Tony Kirk<br><br>Fforwm Cyrff Anllywodraethol ar Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru – Barbara Natasegara<br><br>Iechyd – Hannah Jones Llywodraeth Cymru<br><br>Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Cymru – Ditectif Uwch-arolygydd Lorraine Davies<br><br>Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru – Robert Willis | ddisgrifio’r gwaith ymchwil ar themâu yn y dyfodol<br><br>• Masnachu mewn Pobl yn rhan o Adolygiad o Wasanaethau Llywodraeth Cymru a fydd yn adrodd ar ei ganfyddiadau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn Hydref 2013 a rhoddir adroddiad diweddaru ar hynny i’r Grŵp Arweinyddiaeth<br><br>• Y CAMMP yn aelod bellach o Is-grŵp Data Grŵp Cyd-strategaeth y DU a bydd yn cydweithio â chymheiriaid i chwilio am arferion da ar gyfer casglu data am fasnachu mewn pobl. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y CAMMP yn rhoi diweddariadau ar hyn i'r Grŵp Arweinyddiaeth | | | |
| **2. Cwmpasu 'Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi' ar gyfer yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru ar hyn o bryd ac anghenion y dyfodol** | Mae hyfforddiant hybu ymwybyddiaeth a hyfforddiant arbenigol yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau ledled Cymru. Bwriedir casglu'r wybodaeth hon am y ddarpariaeth i lywio hyfforddiant yn y dyfodol er mwyn blaengynllunio ac adnabod unrhyw fylchau | Bydd y partneriaid yn rhoi manylion am yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu'n awr, am hyfforddiant arfaethedig a manylion y darparwyr hyfforddiant | Kim-Ann Williamson Rheolwr Amrywiaeth ac Ymgysylltu Cymunedol Gwasanaeth Erlyn y Goron<br><br>• Y Grŵp Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 27/6/13 wedi enwebu Kim-Ann Williamson i arwain grŵp gorchwyl a gorffen ac adrodd ar y canfyddiadau cyntaf i'r Grŵp Arweinyddiaeth | Erbyn Tachwedd 2013 | 31 Hydref 2013 | GWYRDD |
| **3. Datblygu Protocolau ar gyfer Rhannu Gwybodaeth/Cud** | Pennu protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth/cudd-wybodaeth am | Cydweithredu rhwng partneriaid amlasiantaethol er mwyn cyfrannu. Hefyd bydd pob partner yn enwi | Lian Penhale<br><br>Uned Wybodaeth Ranbarthol Cymru (Yr | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **d-wybodaeth** | fasnachu mewn pobl ar sail ardaloedd y pedwar Heddlu yng Nghymru gyda 'chanolbwynt' ar gyfer Cymru gyfan | Pwynt Cyswllt Unigol yn ei sefydliad<br><br>Pwyntiau Cyswllt Unigol 'Ymgyrch Eagle' wedi'u henwi ac wedi dechrau ar eu gwaith ym mhob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru | Heddlu)<br><br>• Protocol rhwng y pedwar Heddlu yng Nghymru a'r Uned Wybodaeth Ranbarthol wedi'i roi ar waith (Mehefin 2013).<br><br>• Gwaith yn parhau â phartneriaid amlasiantaethol i ddatblygu protocolau ac adroddir ar gynnydd yng nghyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth. Fforymau Amlasiantaethol ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl wedi'u sefydlu bellach ar gyfer Caerdydd, Gwent, a De Cymru a chyflwynir Fforymau yng | Erbyn Mehefin 2013 – WEDI'I GYFLAW NI<br><br>Yn parhau | 31 Mai 2013 | GWYRDD |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ngogledd Cymru a Dyfed-Powys | | | |
| **4. Datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer Masnachu mewn Pobl yng Nghymru** | Mae'r wybodaeth am Fasnachu mewn Pobl yng Nghymru yn 'gyfyngedig' ar hyn o bryd | Cymorth gan Is-adran Gyfathrebu Llywodraeth Cymru a phartneriaid drwy ddarparu gwybodaeth (Pwynt Cyswllt Unigol: James Pearson)<br><br>Mae'r mentrau'n cynnwys:<br><br>• Diweddaru Tudalen We Llywodraeth Cymru a fydd yn darparu dolennau a manylion cyswllt partneriaid, pecynnau cyngor i ymarferwyr, gwybodaeth am ddigwyddiadau, seminarau a hyfforddiant ynghyd ag ystadegau'r MCC a gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â masnachu mewn pobl ar gyfer ymarferwyr, ymchwilwyr a'r cyhoedd<br><br>• Bydd Cynorthwyydd y CAMMP yn cyflawni'r | Stephen Chapman Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl | Erbyn Medi 2013 – WEDI'I GYFLAWNI | 31 Awst 2013 | GWYRDD |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwaith hwn ym misoedd Gorffennaf/Awst 2013 yn ystod ei leoliad. Y Dudalen We i'w rheoli gan HEO ar Atal Masnachu mewn Pobl<br><br>Rhai o'r mentrau eraill yw:<br><br>• Bydd Uned Wybodaeth Ranbarthol yr Heddlu/Heddlu De Cymru (Lian Penhale) yn llunio DVD 'Rich Picture' ar Atal Masnachu mewn Pobl erbyn Hydref/Tachwedd 2013 i hybu ymwybyddiaeth. Roedd y gwaith hwn wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi yn wreiddiol ond mae'r broses wedi'i gohirio oherwydd blaenoriaethau eraill yn Uned Gyfryngau Heddlu De Cymru<br><br>• Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth yn | | Tachwedd 2013 | 31 Hydref 2013 | GWYRDD |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | datblygu dulliau eraill o hybu ymwybyddiaeth gan gynnwys datganiadau i'r wasg, erthyglau etc a fydd yn parhau yn y dyfodol. Mae'r CAMMP wedi cydweithio ag Uwch-swyddog Cyfathrebu Llywodraeth Cymru Anna Miller | | | | |
| **5. Gofal am Ddioddefwyr** | Datblygu 'Llwybr Gofal ar gyfer Dioddefwyr' yng Nghymru. | Datblygu 'Llwybr Gofal ar gyfer Dioddefwyr' sy'n rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr sydd wedi'u masnachu | Angelina Rodriques Dirprwy Brif Weithredwr Bawso.<br><br>Rhoddir adroddiad diweddaru cychwynnol i'r Grŵp Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd am y gwaith sy'n cael ei dreialu yng Nghaerdydd ar hyn o bryd | Erbyn Ionawr 2014 | 31 Rhagfyr 2013 | GWYRDD |

## 4. Monitro a gwerthuso

4.1. Bydd y CAMMP yn adrodd ar y cynnydd ar gyflawni Amcanion Strategol y Cynllun Gweithredu i'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru.

4.2. Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru yn dal Amcanion Strategol y Cynllun Gweithredu dan sylw'n rheolaidd yn y cyfarfodydd a drefnir ac yn adrodd ar risgiau ar sail eithriadau yn ôl yr angen.

4.3. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn 'ddogfen fyw'. Bydd yn cael ei werthuso'n barhaus a rhoddir adroddiadau diweddaru rheolaidd ar hynny i aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru.

# Atodiad C

## Ystadegau'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (MCC) ar gyfer Cymru 2012

Yn 2012 cafodd Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (MCC) y DU 34 o atgyfeiriadau am ddioddefwyr dichonol masnachu mewn pobl gan sefydliadau ymatebwyr cyntaf yng Nghymru. Mae'r nifer hwn yn 48% yn uwch na nifer yr atgyfeiriadau yn 2011 ac yn 3% o'r holl atgyfeiriadau at yr MCC yn y DU.

Roedd y 34 atgyfeiriad yn cynnwys 21 o ferched (62%) a 13 o ddynion (38%). Roedd 24 (71%) o'r atgyfeiriadau ar gyfer categorïau camfanteisio ar oedolion a 10 (29%) ar gyfer camfanteisio ar bobl ifanc dan oed.

| **Y math o gamfanteisio honedig** | **Merched** | **Dynion** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Oedolion – Caethwasiaeth Ddomestig | 6 | 0 | 6 |
| Oedolion – Camelwa o Lafur | 2 | 5 | 7 |
| Oedolion – Camfanteisio Rhywiol | 10 | 0 | 10 |
| Oedolion – Camfanteisio o fath anhysbys | 0 | 1 | 1 |
| Pobl Ifanc dan Oed - Caethwasiaeth Ddomestig | 1 | 1 | 2 |
| Pobl Ifanc dan Oed - Camelwa o Lafur | 0 | 4 | 4 |
| Pobl Ifanc dan Oed - Camfanteisio Rhywiol (nid yn wladolyn y DU) | 2 | 0 | 2 |
| Pobl Ifanc dan Oed - Camfanteisio o fath anhysbys | 0 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | 21 | 13 | 34 |

| **Awdurdod Cymwys** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Asiantaeth Ffiniau'r DU | 20 |
| Asiantaeth Ffiniau'r DU o fewn CMPDU | 7 |
| CMPDU | 7 |
| **Cyfanswm** | 34 |

## Gwlad Wreiddiol yr Holl Ddioddefwyr a Atgyfeiriwyd yn 2012

| Safle | Cenedligrwydd/ Gwlad Wreiddiol | Merched | Dynion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwlad Pwyl | 2 | 4 | 6 |
| 2 | Albania | 4 | 0 | 4 |
| 2 | Nigeria | 4 | 0 | 4 |
| 2 | Fiet-nam | 1 | 3 | 4 |
| 5 | Bangladesh | 1 | 2 | 3 |
| 6 | Tsieina | 0 | 2 | 2 |
| 6 | Kenya | 2 | 0 | 2 |
| 8 | Affganistan | 0 | 1 | 1 |
| 8 | Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo | 1 | 0 | 1 |
| 8 | Ethopia | 1 | 0 | 1 |
| 8 | Gambia | 1 | 0 | 1 |
| 8 | Rwsia | 1 | 0 | 1 |
| 8 | Sierra Leone | 0 | 1 | 1 |
| 8 | Slofacia | 1 | 0 | 1 |
| 8 | Togo | 1 | 0 | 1 |
| 8 | Uganda | 1 | 0 | 1 |
| | **Cyfanswm** | 21 | 13 | 34 |

## Oedolion a Atgyfeiriwyd[1]

| Safle | Cenedligrwydd/ Gwlad Wreiddiol | Cyfanswm Oedolion |
|---|---|---|
| 1 | Gwlad Pwyl | 6 |
| 2 | Albania | 4 |
| 3 | Kenya | 2 |
| 3 | Nigeria | 2 |
| 5 | Bangladesh | 1 |
| 5 | Tsieina | 1 |
| 5 | Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo | 1 |
| 5 | Ethopia | 1 |
| 5 | Gambia | 1 |
| 5 | Rwsia | 1 |
| 5 | Sierra Leone | 1 |
| 5 | Slofacia | 1 |
| 5 | Togo | 1 |
| 5 | Uganda | 1 |
| | **Cyfanswm** | 24 |

[1] **Oedran wedi'i seilio ar oedran ar adeg y camfanteisio cyntaf.**

## Pobl Ifanc dan Oed a Atgyfeiriwyd[2]

| Safle | Cenedligrwydd/ Gwlad Wreiddiol | Cyfanswm Pobl Ifanc dan Oed |
|---|---|---|
| 1 | Fiet-nam | 4 |
| 2 | Nigeria | 2 |
| 2 | Bangladesh | 2 |
| 4 | Tsieina | 1 |
| 4 | Affganistan | 1 |
| | **Cyfanswm** | 10 |

## Cyfansymiau'r Atgyfeiriadau gan Sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf[3]

| | Oedolion | | Cyfanswm Oedolion | Pobl Ifanc dan Oed | | Cyfanswm Pobl Ifanc dan Oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliad Ymatebwyr Cyntaf** | **Merched** | **Dynion** | | **Merched** | **Dynion** | | |
| Heddlu Avon a Gwlad yr Haf | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Heddlu Dyfed-Powys | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau | 1 | 3 | 4 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Heddlu Gwent | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Awdurdod Lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 |
| Heddlu Gogledd Cymru | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Byddin yr Iachawdwriaeth | 6 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| Heddlu De Cymru | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| Asiantaeth Ffiniau'r DU | 10 | 1 | 11 | 0 | 3 | 3 | 14 |
| **Cyfanswm** | 20 | 6 | 26 | 1 | 7 | 8 | 34 |

**[2] 17 oed neu'n iau ar adeg y camfanteisio honedig cyntaf**
**[3] Yr oedran ar adeg yr atgyfeirio, nid ar adeg y camfanteisio cyntaf.**

# Atodiad D

## Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Fasnachu mewn Pobl

**1)** Bydd y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Fasnachu mewn Pobl yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr Gweinidogol o bob rhan o'r DU:

Y Swyddfa Gartref;
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
Yr Adran Addysg;
Yr Adran Iechyd;
Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol;
Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad;
Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol;
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
Gweithrediaeth yr Alban;
Llywodraeth Cymru;
Cynulliad Gogledd Iwerddon;
Swyddfa Cymru;
Swyddfa'r Alban;
Swyddfa Gogledd Iwerddon;
Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol.

**2)** Bydd y Grŵp yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn.

**3)** Bydd cyfrifoldeb cyffredinol gan y Grŵp dros arolygu dull y DU o fynd i'r afael â masnachu mewn pobl, gan gynnwys Strategaeth Llywodraeth y DU ar Fasnachu mewn Pobl a chydymffurfiaeth gan y DU â gofynion yr UE a gofynion rhyngwladol.

**4)** Yn unol â'r gofynion yng Nghyfarwyddeb yr UE ar fasnachu mewn pobl 2011, y grŵp fydd mecanwaith rapporteur cenedlaethol y DU. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, bydd y grŵp:

- yn dadansoddi ac yn asesu tueddiadau o ran masnachu mewn pobl yn rheolaidd;
- yn cydweithio â sefydliadau'r gymdeithas ddinesig, drwy gomisiynu a gweithio drwy'r Bwrdd Strategaeth Masnachu mewn Pobl;
- yn llunio adroddiad blynyddol ar waith y DU ar fynd i'r afael â masnachu mewn pobl.

**5)** Bydd yr adroddiad blynyddol:

- yn dadansoddi ac yn asesu tueddiadau o ran masnachu mewn pobl yn y DU;
- yn dangos y cynnydd gan y DU ar fynd i'r afael â masnachu mewn pobl;
- yn ystyried adroddiadau cenedlaethol allweddol penodol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd;
- yn nodi ac yn rhoi crynodeb o'r bygythiadau allweddol a meysydd i'w gwella.

**6)** Bydd y Grŵp yn cyflawni swyddogaeth cydgysylltu i sicrhau bod gweithgarwch ar draws y DU yn gyson â Strategaeth Llywodraeth y DU ar Fasnachu mewn Pobl ac yn cyfrannu ati'n effeithiol. Bydd hefyd yn cyflawni swyddogaeth herio yng nghyswllt y gwaith sy'n cael ei lywio a'i gydgysylltu gan y Swyddfa Gartref, sef yr adran arweiniol ar fasnachu mewn pobl, a chaiff gomisiynu gwybodaeth, adroddiadau neu ddiweddariadau ar waith ar fasnachu mewn pobl yn ôl yr angen.

**7)** Bydd y Grŵp yn cael diweddariadau rheolaidd am wledydd penodol gan CMPDU ar sail gwybodaeth o'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol. Bydd diweddariadau o'r fath yn cynnwys crynodeb o'r gudd-wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod adrodd, i hwyluso gwaith y grŵp ar asesu a dadansoddi tueddiadau o ran masnachu mewn pobl. Bydd y Grŵp yn dadansoddi'r data sydd wedi'u darparu gan CMPDU yn rheolaidd, gyda chymorth y Bwrdd Strategaeth Masnachu mewn Pobl, a chaiff ofyn am ragor o wybodaeth yn ôl yr angen.

# Atodiad E

## Acronymau

| | |
|---|---|
| **ACPO** | **Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu** |
| **CAMMP** | **Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl** |
| **CLlLC** | **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** |
| **CMPDU** | **Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU** |
| **GLA** | **Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau** |
| **MCC** | **Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol** |
| **NCA** | **Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol** |

| **Papur rhif:** | **Cyhoeddwyd/ Dyddiad y cyfarfod** | **Gan** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| 3 | Ymchwiliad i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Ymateb i'r ymgynghoriad |
| 4a,<br>4b,<br>4c | Sesiwn graffu ar Fasnachu mewn Pobl 20/11/2013 | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys<br><br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent<br><br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru | Fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar Fasnachu mewn Pobl, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. |
| 5a,<br>5b | Y Gymraeg 4/12/2013 | Y Prif Weinidog<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes | Yn dilyn presenoldeb y Prif Weinidog yn y cyfarfod ar 4 Rhagfyr, i gyflwyno tystiolaeth am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Prif Weinidog a Chadeiryddion Pwyllgor. |

# Policy Response



# Inquiry into public libraries in Wales

*A response from WCVA*

**3 March 2014**

WCVA
Baltic House
Mount Stuart Square
Cardiff
CF10 5FH

# Wales Council for Voluntary Action

## Response to the inquiry on public libraries in Wales

1. Wales Council for Voluntary Action (WCVA) is a registered charity and umbrella body working to support, develop and represent Wales' third sector at UK and national level. We have over 3,350 organisations in direct membership, and are in touch with many more organisations through a wide range of national and local networks. WCVA's mission is to provide excellent support, leadership and an influential voice for the third sector and volunteering in Wales.

2. WCVA is committed to a strong and active third sector building resilient, cohesive and inclusive communities, giving people a stake in their future through their own actions and services, creating a strong, healthy and fair society and demonstrating the value of volunteering and community involvement.

3. We believe that there is an urgent need to transform public services in Wales by treating people and communities as assets and equals in design and delivery; building services around the person and community; unlocking potential resources of time, money and expertise to combine with state funding; using existing state resources to enable and maximise citizen and community action, capital and care. This is why many people are now looking at a different co-produced public service, which places the citizen and community at the centre, with the state as the enabler and facilitator.

4. We welcome the opportunity to offer comments for the Communities, Equality and Local Government Committee's inquiry into public libraries in Wales. We have concentrated on the questions pertinent to our role as a representative body for the third sector in Wales.

**Options for improving the financial sustainability of library services, including alternative models of provision**

5. There are a number of options for redefining library service provision with communities. We believe it is irresponsible to cut and close. There are alternative models of provision which avoid library cuts or closures, but maximise their resources through co-productive approaches which might include transfer of ownership, reconfiguring services, greater community involvement, and partnering with community groups.

6. The following extract from WCVA's recent position paper *Putting People at the Centre*, (enclosed) set out the different scenarios for two councils who want to cut expenditure on libraries:

> "In Council 1 the decision is taken by the Cabinet and the library is closed, with protests and negative publicity which do not alter the decision. Staff are made redundant and there is no longer a service in the area of any sort.
>
> "Council 2 went to the community with its proposals and asked for ideas. The community propose transferring the freehold of the library building to a development trust; and transferring the library service to a nearby community centre with spare capacity, and running it with a mix of residents and a paid co-ordinator. The trust sells the original building and uses the proceeds to establish an endowment to pay towards the co-ordinator. Other ongoing costs are met by a continued revenue grant from the Council that is 80 per cent less than previous expenditure. The service and at least one associated job are maintained."

7. A further example could be –

Council 3 went to the community with its proposals and asked for ideas. The community proposed transferring the freehold of the library building to a newly set up community organisation. The organisation then used the building as security to raise loan finance to pay for upgrading and re-configuring the building. This then meant that the library now become a multi use building able to generate income through activities such as office rental for local private or social enterprises, provision of crèche facilities, room rentals for meetings and outreach learning activities, local tourist information or any other activity that is specific to the locality and can generate income to contribute to the maintaining of the core library activity.

8. Crucially, public bodies should be creating time and space for full consideration of ways in which services can be maintained or reconfigured with the full contribution of citizens and community groups.

9. Between maintaining an existing service and closing it, there are a number of options for alternative models of library service provision, which might include:

- Community management of libraries, through a partnership with Local Authorities
- Transferral of building ownership to trusts
- Greater partnership with town and community councils
- Partnering with local third sector organisations to maximise use of facilities, e.g. co-locating other services and activities within libraries to develop community hubs
- Transferral of library services to other community buildings with spare capacity
- Greater use of volunteers alongside paid staff
- Partner with other delivery organisations to supply books to housebound people
- Extend opening hours (evenings and Sundays) through partnering with community groups and deploying volunteers

10. It would be important that a partnership approach between Local Authorities and communities or community organisations should be established on an equal basis. For example, if a Local Authority transfers library service provision to a community group, it should not be too prescriptive about the requirements of transferred services: communities should have scope to shape services according to their needs and resources.

11. The ability to attract investment into the library once it is not a publicly held asset through various grant schemes, foundations and social investment funds, such as WCVA's Communities Investment Fund, means that altering a library's ability to be more sustainable is possible.

**The use of volunteers in libraries**

12. Alternative models of library service provision, following co-productive approaches, are likely to involve volunteers and exploration of these is to be encouraged.

13. Guidelines for good practice in working with volunteers can be found by referring to the Investing in Volunteers Standard www.investinginvolunteers.org.uk

14. Care should be taken not to place volunteers in what were previously staff roles. The Wales TUC/WCVA Charter ‘A Charter for strengthening relations between paid staff and volunteers’, March 2011, sets out principles for working with paid and unpaid staff alongside one another.

15. Volunteers may be involved directly in county library service provision. A volunteering policy is advisable, to set out clearly the principles and practice for volunteer involvement. WCVA is happy to advise on this. It may appropriately be Local Authority wide i.e. relevant to all departments, rather than exclusively for library services

16. Volunteers may also be involved in association with community groups who develop services in partnership with, or complementing and separate from what the Local Authority provides. The Local Authority would not be expected to have responsibility for volunteer policy or management in such cases.

17. Involving volunteers can lead to creative and cost effective ways of delivering services. It is not cost-free however. Volunteer involvement needs to be planned, resourced (training and expenses, for example) and appropriately managed and supported. It often works best where a designated staff member has responsibility and can give adequate time for volunteers.

**The contemporary and community role of public libraries in Wales**

18. Public libraries in Wales have a crucial role to play: one which is continuously developing role, and becoming more important than ever. Libraries are important as centres for knowledge and learning; enabling reading for pleasure; providing information about local services; enabling social contact; supporting improved literacy; providing services freely available to all in the community, of all ages; addressing poverty through the provision of free resources and job search; providing warm welcoming environments for people to spend time productively; addressing digital exclusion through the provision of internet access, training and support; providing bibliotherapy for people with mental health problems; and many other functions.

19. When supported, libraries are true enablers: facilities which enable an extensive range of activity that can contribute to community development and cohesion.

**GC**
WCVA
3 March 2014

Attached: *Putting People at the Centre*, WCVA

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Christine Chapman AC/AM
Chair
Communities, Equality & Local Government Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

26th February 2014

Dear Christine,

Thank you for your letter of 4 December 2013, concerning the Wales Anti-Human Trafficking Co-ordinator. Please accept my sincere apologies for my very delayed response.

You ask a series of questions, to which I have provided answers, as best I can, below. You seek views on:

- the effectiveness of the relationship between the Co-ordinator and the Police and Crime Commissioners;
- the effectiveness of multi-agency working between UK and Welsh Government departments;
- what mechanisms are in place for sharing intelligence between Police and Crime Commissioners and agencies in Wales;
- whether victim support services are adequate and responsive;
- whether I consider that awareness of human trafficking and how to refer victims into the National Referral Mechanism is consistent across police forces in Wales.

I'm afraid I had never heard of the Wales Anti-Human Trafficking Co-ordinator, so can only comment that it has not been a terribly effective relationship thus far, in terms of my office. I believe the police do work with the co-ordinator when appropriate. These occasions are relatively rare in Dyfed Powys, in single figures.

The effectiveness of multi-agency working between UK and Welsh Government departments is generally reasonable, in my experience. I am not aware of evidence that work between Welsh and UK government departments is any less effective than work between departments within those governments. That said, I very much doubt that it is better.

Police and Crime Commissioners and police forces meet regularly to share information and manage Wales-wide issues. Forces have embedded intelligence sharing arrangements between them, as they do with other UK and international forces. We also have a number of police collaborations in Wales, not least the Welsh Extremism and Counter Terrorism Unit (WECTU), Tarian (which shares intelligence to tackle organised crime) and joint firearms arrangements. We work with other agencies through a number of fora; too many, in fact. We

work with Local Service Boards, Community Safety Partnerships, Area Planning Boards, Supporting People Partnerships and Local Resilience Forums, to name a few.

Victim support services can certainly be improved. They are adequate and responsive but, like other services, are under financial pressure. Police and Crime Commissioners are empowered to act as the voice of victims across the criminal justice system and with local partners. Our funding is expanding to include provision of victims' services and restorative justice over the course of the coming financial year (2014-15). I believe these services need to deliver better value, become more targeted and provide more space for local providers. This is a particular concern in my, very rural, area.

I understand that the National Referral Mechanism works well as far as the police are concerned. I am not aware of any problems with its consistency or referrals from police forces in Wales.

I hope this helps with your enquires.

Yours sincerely,

Christopher Salmon

**Christopher Salmon**
**Police & Crime Commissioner**

**Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Gwent**
**Office of Police and Crime Commissioner, Gwent**
Pencadlys Heddlu Gwent | Gwent Police Headquarters,
Croesyceiliog, Cwmbrân, NP44 2XJ
Ffôn | Tel: 01633 642 200
Ebost | Email: commissioner@gwent.pnn.police.uk
We | Web: www.gwent.pcc.police.uk

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent | Police and Crime Commissioner for Gwent:
**Ian Johnston QPM**

Christine Chapman, AC/AM
Chair, Communities, Equality & Local Government Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CARDIFF
CF99 1NA

7th January 2014

Dear Chris

Thank you for your letter of 4th December 2013. Please find below my views on the matters highlighted in your letter.

**Question: The role of the Wales Anti-Human Trafficking Co-ordinator, including its effectiveness and achievements so far;**

Answer: Tackling Human Trafficking requires co–ordinated action cutting across the Political and Agency boundaries in the UK. The response in Wales has been bolstered by the appointment of an Anti-Human Trafficking Co-ordinator (AHTC), who champions the fight against exploitation with Police Forces, Public Authorities and Charity Organisations. The Welsh Government is the only Government within the UK to employ an AHTC and should be applauded for their commitment in this area. Not only does the AHTC advise the Minister, he also raises awareness of Human Trafficking and contributes to policy development across the Welsh Government. Some of the achievements so far include the Cardiff Anti Human Trafficking Forum piloting their first Human Trafficking Multi Agency Risk Assessment Conference (MARAC) and following positive feedback are using this process for all future cases involving potential victims of Human Trafficking. The AHTC is working with colleagues on an initiative led by the Crown Prosecution Service on the introduction of Joint Investigation Teams for cases of human trafficking, such as the National Crime Agency, Home office Immigration and Gangmasters Licensing Authority. In March 2013 Operation Eagle was launched. The objective of this operation is to raise awareness, increase the amount of information received and improve co–ordination and operation activities of all Police Forces across England and Wales . All four Welsh Police Forces are engaged in preventative and pro-active anti human trafficking operations. I believe the role is very effective and the above demonstrates the achievements to date.

**Question:** **the effectiveness of the relationship between the Co-ordinator and the Police and Crime Commissioners;**

Answer: The relationship between the AHTC and the Force is very positive. There probably needs to be more interaction between the AHTC and the OPCC in relation to policy development and in future the link to victim services which will come within the PCC remit from October 2014. I have already made contact to discuss these issues with the AHTC as soon as possible.

**Question:** **The effectiveness of multi-agency working between UK and Welsh Government departments;**

Answer: There is a large amount of multi agency work being carried out in the field of Human Trafficking. The AHTC represents Wales on a number of UK Groups including the UK Threat Reduction Board, The UK Human Trafficking Strategy Board, the Home Office Joint Strategy Group, and the Home Office Child Trafficking Information Sharing Forum. In addition the AHTC is a member of the Wales Border Management Group and a number of key strategic and operational groups. The AHTC is also now part of the Violence Against Women and Domestic Abuse (VAWDA) team within the Community Safety Division of the Welsh Government. Awareness raising sessions are being delivered to key stakeholders across Wales including Local Authorities, Local Health Boards, Criminal Justice Partners, and NGO'S.

**Question:** **What mechanisms are in place for sharing intelligence between Police and Crime Commissioners and agencies in Wales;**

Answer: Section 115 of the Crime and Disorder Act 1998 covers the legality of the exchange of intelligence. That exchange is extremely effective at an operational level, as shown by the exchange of intelligence between Operation Imperial and Trading Standards in the Gwent Police area. However, more intelligence sharing needs to be developed between all Public Authorities. The GAIN process is a very useful mechanism to maximise this. The Regional Intelligence Unit based in Bridgend is in the process of preparing a problem profile in relation to the extent of the problem of Human Trafficking regionally. All 3 Southern Wales Forces have contributed to this by submitting information and intelligence on their problems locally. When complete I am advised this will be shared with PCC'S and relevant agencies.

As far as Gwent is concerned a Multi Agency HT forum has been set up which meets on a quarterly basis and is chaired by a DI. Intelligence and information is shared between partners in this forum with a review of recent cases and the dissemination of any lessons learned.

**Question: Whether victim support services are adequate and responsive;**

Answer: Victim Support have developed a referral pathway for all agencies who may encounter a potential victim of adult trafficking. This was developed with the Anti-Trafficking Partnership in Bristol, and part of that pathway is a referral to Victim Support for emotional and practical support for that victim. This is not currently an established pathway in Wales and is possibly an area for improvement, although Victim Support will take referrals through the normal process for victims of trafficking. Victim Support have held awareness raising sessions with their volunteers and are working on a training package. This may be an area that requires further discussion as part of my developing Commissioning Strategy.

**Question: Whether you consider that awareness of human trafficking and how to refer victims into the National Referral Mechanism is consistent across police forces in Wales;**

Answer: In June 2013, the AHTC arranged for Welsh National Referral Mechanism (WNRM) First Responders, the four Welsh Police Force Strategic Leads and Single Points of Contact and Welsh Government Community Cohesion Co-ordinators to visit the UK Human Trafficking Centre. The visit included a UK and Wales Human Trafficking Intelligence Briefing by the head of UKHTC and also an explanation of the role of the Tactical Advisors and of the NRM process. Work is continually being done with other first responders such as BAWSO and New Pathways to ensure that there is consistency with both police and partners in terms of referrals to the National Referral Mechanism. The Southern Welsh Forces have engaged regionally to try and establish a stronger intelligence picture of the extent of this problem. The police recognise the need to work closely with other agencies to improve the intelligence picture of this area of criminality. Gwent Police are very aware, particularly with our experiences of Operation Imperial, of the National Referral Mechanism. We have worked with UKHTC of the National Crime Agency and successfully engaged in the process with victims.

I hope you have found my responses to be helpful. If I can be of any further assistance please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely



**I Johnston, QPM**
**Police & Crime Commissioner for Gwent**

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

## Communities, Equality and Local Government Committee
## CELG(4)-08-14 Paper 4c

Christine Chapman AC/AM
Chair
Communities, Equality and Local Government Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ein Cyf / Our Ref: File JA/AJ

5 March 2014

Dear Christine

**Re: Scrutiny – human trafficking**

I refer to your letter of 4th December 2014. I apologise for the delay in responding.

In conjunction with the points listed in your letter, I would submit the following information:

1. With regard to effectiveness and achievements to date, my view is that Wales is taking the lead on co-ordination of anti-human trafficking activity. I view the fact that north Wales is the first official, formal structure overseen by a local Co-ordinator – Mr James Coy – as a significant step. I understand that Steve Chapman is progressing the same approach in the other three police areas in Wales. The work done by Steve Chapman in producing a formalised training package that will standardise and achieve consistency with the delivery of training amongst the partner agencies is real progress. Likewise, I think the victims' safeguarding pathway developed by Cardiff & Vale Health Board will prove effective - I understand that Betsi Cadwaladr University Health Board staff have viewed this and consider it good practice. Thus, it seems likely that this good practice will be shared.

2. Over the course of the last four months, we feel that we have established an effective relationship with the Co-ordinator. Mr Coy has been in post since the 4th November and since then, we have met on a number of occasions. We held a 1:1 meeting on 25th November when he outlined start-up information in detail; we met with the Commissioner on 18th February when Mr Coy provided us with a full update on progress; I have met Mr

Coy at North Wales Safer Communities Board meetings on 13th November and 20th February. In addition, the Commissioner opened the Barnardo's Conference on child trafficking and I gave a keynote speech at the North West Wales 'Together Against Trafficking' conference held at Bangor University on 22nd January. I met Steve Chapman at this event.

3. On the effectiveness of multi-agency working between UK and Welsh Government departments, I am reliant to some extent on the briefings supplied by Mr Coy, however I can only reiterate here my perception that the welsh anti-human trafficking project appears to be leading the way in that already I understand it to be the case that other areas of the UK have been in contact with a view to replicating the approach. Also of relevance on this point is the clarity of message on the part of the Home Secretary and the Welsh Government Minister for Local Government and Government Business.

4. You ask in this point what mechanisms are in place for sharing intelligence between Police and Crime Commissioners and agencies in Wales. I see this point as under development. The north Wales Co-ordinator is currently checking that we have in place the necessary protocols. There is a need to distinguish here between information and intelligence. Training and familiarisation activities for police and partner agencies targeted at identifying human trafficking will doubtless result in the sharing of not only information but intelligence also. Accordingly, it is important that the relevant protocols, including the Wales Accord on the Sharing of Personal Information, are still fit for purpose. I understand that Mr Coy has taken the lead in examining this issue and is ensuring that the agreements cover intelligence as well as information. In addition, with regard to the Government Agencies Intelligence Network, I understand that the Force is committed to working with the one at Bridgend and the one which is being established at Warrington. This should smooth the pathway for intelligence sharing between law enforcement and non-law enforcement partners.

5. On whether victim support services are considered adequate and responsive, we are about to embark on the completion of a needs assessment with regard to victims' commissioning in north Wales. According to the briefing the Commissioner and I have received from Mr Coy, interim reception facilities are being put in place in Holyhead Port. Our understanding is that each agency is going to have a part to play in the relevant victim pathway. I understand that the Cardiff pathway has been heralded as very good practice.

6. The final point asks whether I consider that awareness of human trafficking and how to refer victims into the National Referral Mechanism is consistent across police forces in Wales. My understanding is that, on the latter point, it is not. However, this has been identified. Initial training packages are still in the process of being rolled out. I understand from Mr Coy that Holyhead Port is due for completion in April and that it will involve the four main agencies at the port.

In terms of other information, it is perhaps relevant to point out that during the last two months, we have been consulting on the revision of the Commissioner's Police and Crime Plan. This has involved discussions on anti-human trafficking. We are not aware of any barriers encountered by the local Anti-Human Trafficking Co-ordinator.

Yours sincerely

Julian

Julian Sandham
Deputy Police and Crime Commissioner

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/FM/0543/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd: Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4ydd Mawrth 2014

Annwyl Christine

Ryw'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch gohebiaeth dyddiedig 28 Ionawr, yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'ch gohebiaeth yn codi nifer o faterion, ac rwyf wedi darparu gwybodaeth benodol mewn perthynas â'r penawdau a nodir ynddi.

O ran ein cynnydd â Strategaeth *Iaith Fyw: Iaith Byw*, byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol yn fuan, a byddaf yn hapus i drafod unrhyw faterion sy'n codi ynddo gyda'r Pwyllgor.

Credaf fod y Strategaeth yn dal i fod yn briodol. Er bod canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn siomedig, doedden nhw ddim yn annisgwyl. Yn hynny o beth, er inni gyhoeddi'r Strategaeth cyn i'r canlyniadau hynny ddod i law, fe'i lluniwyd â'r nod o fynd i'r afael â'r sefyllfa a amlygwyd gan y Cyfrifiad.

Mae Cynllun Gweithredu 2013-14 yn dangos sut y bu inni symud ymlaen yn sgil y Cyfrifiad. Un o'r camau rhagweithiol a gymerwyd gennym, wrth gwrs, oedd cynnal y Gynhadledd Fawr, a hynny er mwyn casglu syniadau ymarferol i gefnogi'r iaith a'n cymunedau Cymraeg.

Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddais ar 3 Chwefror yn cynnwys rhagor o fanylion am ein camau hyd yn hyn.[1] Yn y fan honno rwy'n pwysleisio bod y Strategaeth yn parhau i lywio'r hyn rydym yn ei wneud a bod datblygiadau pwysig ar y gweill, ond nad oes lle gennym i laesu dwylo. Dywedais hefyd y byddaf yn gwneud datganiad polisi llawn yn y gwanwyn, ac rwyf yn bwriadu gwneud hynny cyn toriad y Pasg.

[1] http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/welshlang/?lang=cy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk •
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

O droi at brif-ffrydio'r Gymraeg oddi mewn i Lywodraeth Cymru, rydym yn mynd i'r afael â'r angen i ddadansoddi cyllideb Llywodraeth Cymru o ran traweffaith ar y Gymraeg. Yn benodol, mae gwaith wedi mynd rhagddo ar lunio methodoleg newydd, a byddwn yn dechrau asesu'r gwariant ar y Gymraeg a'i chyfraniad at amcanion Iaith fyw: Iaith byw ym mhroses gyllido 2014.

Fel rhan o'r paratoi ar gyfer gweithredu'r Safonau Iaith newydd, rydym yn gweithio ar declyn asesu traweffaith newydd ar gyfer penderfyniadau polisi, gyda'r nod o brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws penderfyniadau polisi.

Mater arall a grybwyllir yn eich llythyr yw rôl a chyllideb Comisiynydd y Gymraeg. Pan osodais yr amcangyfrif o gyllideb y Comisiynydd gerbron y Cynulliad ar 27 Ionawr, cyhoeddwyd llythyr hefyd a oedd yn esbonio'r sail dros y gostyngiad o 10% i'w chyllideb ar gyfer 2014/15. Mae copi o'r llythyr hwnnw i'w weld ar y we.[2]

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Comisiynydd i adolygu a diweddaru'r Cytundeb Fframwaith ar gyfer Cydweithio. Ar ôl cytuno ar hwn, caiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion anfon copi o'r cytundeb atoch pan gaiff ei gyhoeddi.

O safbwynt cynllunio, mae canllaw ymarferol wrthi'n cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn disgwyl y bydd yn barod at ddefnydd awdurdodau cynllunio lleol yn y gwanwyn. Rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr awdurdodau cynllunio lleol a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i baratoi'r canllaw, ac yn credu y bydd yn declyn defnyddiol arall, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20, i helpu awdurdodau ystyried yr iaith Gymraeg yn effeithiol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Bydd y canllaw ymarferol o ddefnydd i'r awdurdodau sydd wrthi'n paratoi CDLl, yn ogystal â'r rhai sy'n adolygu CDLl.

O ran ymateb i adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymunedau Cymraeg, rydym yn ystyried yr argymhellion ar hyn o bryd, a bydd hyn yn bwydo i mewn i'r datganiad polisi y byddaf yn ei wneud yn y gwanwyn. Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r adroddiad yr un pryd.

Yn eich llythyr rydych yn cyfeirio at ddiffyg cyfeiriad at y Gymraeg ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae yna eisoes ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n ymdrin yn ddigonol â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg ac sy'n gwarchod y gwasanaethau hynny (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a *Mwy na geiriau: y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*). Yn hynny o beth, nid oes bwlch yn y gyfraith y byddai cynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg ar wyneb y Bil yn ymdrin ag ef.

At hynny, mae'r dull a ddisgrifir yn *Mwy na geiriau* yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy'r Datganiad Lles. Bydd y Datganiad hwn yn llywio'r broses o roi'r Bil ar waith, ac mae'n rhan ganolog o'r fframwaith deddfwriaethol am ei fod yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru yn y Bil. Cafodd y Datganiad ei ddatblygu mewn partneriaeth â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau eu hunain, ac mae'n cynnwys cyfeiriad penodol at gael gafael ar ofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Memorandwm Esboniadol, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bil, hefyd yn egluro y bydd is-ddeddfwriaeth yn cyfeirio'n benodol at y Gymraeg, er enghraifft mewn perthynas â'r trefniadau asesu a chomisiynu newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

[2] http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=253281&ds=1/2014

Mae'r Bil yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd ystyried dewis iaith unigolyn. Mae gwelliant gan y Llywodraeth, a gyflwynwyd yng ngham 2 ac y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2013 yn golygu, o dan y ddyletswydd gyffredinol yn adran 4(3)(c), bod yn rhaid i unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith). Mae'r cyfeiriad hwn at iaith yn ymgorffori'r Gymraeg mewn achosion lle dyma ddewis iaith unigolyn.

Yn ogystal â hynny, yn ddiweddar pasiwyd gwelliant y Llywodraeth a gynigiwyd ar Gam 3. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu ysbryd gwelliant a gynigiwyd gan Elin Jones AC ar gam 2, sef darparu ar gyfer cofnodi anghenion ieithyddol ar unrhyw gofrestr o bobl â nam ar eu golwg, pobl â nam ar eu clyw a phobl anabl eraill, a gedwir yn unol â'r hyn oedd ar y pryd yn adran 15 ac sydd bellach yn adran 17 yn y Bil ar ôl cam 3.

Mae'r Bil felly'n deddfu'n eglur er mwyn rhoi llais clir i ddinasyddion, yn ogystal â rheolaeth wirioneddol iddynt dros wasanaethau heb yr angen am gyfeiriadau penodol at y Gymraeg ar wyneb y Bil.

Mewn perthynas â'r gweithlu Cymraeg eu hiaith, ym mis Tachwedd 2012 lansiodd Llywodraeth Cymru *Mwy na geiriau*, ei fframwaith strategol i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gael gafael ar wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn Gymraeg. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod cael gwasanaethau drwy'r Gymraeg, i lawer o siaradwyr Cymraeg, yn fwy na mater o ddewis ond hefyd yn fater o angen ieithyddol e.e. yn achos pobl â dementia, pobl sydd wedi cael strôc, a phlant o dan bump oed.

Mae dau gynllun gweithredu yn cyd-fynd â *Mwy na geiriau*, un ar gyfer y GIG a'r llall ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn disgrifio'r camau ymarferol sydd angen eu cymryd i gyflawni'r strategaeth dros y tair blynedd nesaf o fis Ebrill 2013, ac maent yn cynnwys nifer o amcanion strategol. Mae un o'r amcanion hyn yn cynnwys gwella gallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Cafodd system i fonitro *Mwy na geiriau* a'r ddau gynllun gweithredu ei chyflwyno ym mis Ebrill 2013. Mae rheolwr gweithredu wedi'i benodi ac mae'n cydweithio'n agos â phartneriaid yn y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol, gan rannu arferion da a chefnogaeth yn ôl y galw. Mae grŵp gweithredu hefyd wedi'i sefydlu, sy'n monitro'r cynnydd bob 6 mis ac yn adrodd i'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Gymraeg mewn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol drwy'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r canlynol ymysg y datblygiadau sydd wedi gwella gallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ers rhoi *Mwy na geiriau* ar waith ym mis Ebrill 2013:

- Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn datblygu cwrs i wella hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi datblygu a rhoi ar waith strategaeth sgiliau iaith lwyddiannus. Maent wedi clustnodi sgiliau'r gweithlu ac yn eu defnyddio fel rhan o gynlluniau rota staff
- Mae Cyngor Gofal Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu trylwyr, gan gynnwys gwaith ar ddrafft cyntaf Fframwaith Cymwyseddau Cymraeg, ac wedi bod yn datblygu cynllun sgiliau iaith ar gyfer y sector
- Mae'r Cyngor Gofal hefyd wrthi'n cynnal ymchwil i gasglu gwybodaeth er mwyn creu cwrs Cymraeg i weithwyr yn y sector gwasanaethau cymdeithasol, gyda'r nod o wella hyder pobl i ddefnyddio'u sgiliau iaith.

Mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi gofyn i'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy presennol, Peter Davies, gynnal sgwrs genedlaethol beilot ar y Gymru a Garem erbyn 2050. Cafodd ei lansio ar 18 Chwefror, a'i nod yw gwella ein dealltwriaeth o'r materion hirdymor y gall y bydd Cymru yn eu hwynebu.

Bydd ein cynigion ar gyfer Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (y teitl dros dro) yn gosod nodau a thargedau uchelgeisiol ar gyfer y tymor hir er mwyn creu'r Gymru a garem ei gweld yn y dyfodol. Bydd rhoi'r nodau hyn mewn cyfraith yn rhoi cyfeiriad i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a hwb iddynt weithio ynghyd i sicrhau gwlad iachach a mwy llewyrchus, gan gydbwyso'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas. Rydym wedi datblygu nodau drafft arfaethedig i hwyluso'r drafodaeth am y Gymru a Garem erbyn 2050:

- Mae Cymru'n llewyrchus ac yn arloesol
- Mae Cymru'n wlad decach
- Nid yw Cymru'n defnyddio mwy na'i rhan deg o adnoddau naturiol
- Mae pobl Cymru yn iachach
- Mae Cymunedau ledled Cymru'n ddiogelach, yn fwy cydlynol ac yn fwy cydnerth
- Mae pobl Cymru yn cymryd rhan yn ein diwylliant, sy'n perthyn i ni i gyd, gydag iaith Gymraeg sy'n ffynnu

Mae'r sgwrs genedlaethol yn gyfle i bawb lywio'r drafodaeth ar y Gymru a Garem erbyn 2050. Rwy'n deall bod Peter Davies wedi cynnwys Cymdeithas yr Iaith a Chomisiynydd y Gymraeg yn y trafodaethau hyn.

Mae ein cynigion ar gyfer y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd hefyd yn cynnwys Cyngor Ymgynghorol, ac rydym yn bwriadu i aelodau craidd y Cyngor hwnnw gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn diogelu lle'r Gymraeg wrth wraidd ein dull o sicrhau Cymru fwy cynaliadwy.

Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i'w ganfod ar y we.[3] Mae rhagor o fanylion ar y Sgwrs Genedlaethol beilot hefyd i'w canfod ar y wefan Y Gymru a Garem.http://www.ygymruagarem.co.uk/[4]

Rwy'n eich annog i fod yn rhan o'r sgwrs genedlaethol beilot, a fydd yn ymestyn i bob rhan o Gymru ac yn cynnwys cymaint o bobl â phosibl.

Credwn fod y berthynas rhwng gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg yn bwysig. Mae hyn yn arbennig o wir pan ystyriwn addysg cyfrwng Cymraeg, gan mai cyswllt cyntaf plant a rhieni â'r Gymraeg yw gofal plant cyfrwng Cymraeg neu grwpiau chwarae yn Gymraeg. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o Dechrau'n Deg a gofynnir i awdurdodau lleol ymateb i ddewis rhieni. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg sut maent yn sicrhau bod darpariaeth gofal plant, gan gynnwys yr hyn a gynigir o fewn Dechrau'n Deg, yn cyfrannu at ddatblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.

[3] http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/futuregenerationsbill/?lang=en

[4] www.ygymruagarem.co.uk

Cynhwyswyd targedau yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg er mwyn cynnig ffordd o fesur effeithiolrwydd y Strategaeth. Wedi dweud hynny, mae'r targedau yn dangos yn glir ddyhead Llywodraeth Cymru i weld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Dangosir twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, yn bennaf, drwy fesur y cynnydd yng nghanran y plant saith oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Er mwyn gwneud hynny, rydym wedi cyflwyno trefn gynllunio newydd drwy'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, sef Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mecanwaith yw'r rhain i wella cynllunio o'r cyfnod cyn-ysgol hyd at ddiwedd addysg statudol. Felly, o'u gweithredu'n iawn bydd modd cyrraedd targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Ond mae'n rhaid i'r cynllunio fod yn iawn a rhaid i awdurdodau lleol symbylu twf yn ogystal â chwrdd â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Yn 2012, cyrhaeddodd nifer y dysgwyr saith oed a oedd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg ei lefel uchaf ers i asesiadau o'r fath gael eu cyflwyno ym 1999, gan groesi 7,000 am y tro cyntaf a chofnodi'r cynnydd blynyddol mwyaf ar ffurf canran (7.4 y cant). Fodd bynnag, cyflawnwyd y cynnydd hwn yng nghyd-destun cynnydd blynyddol anarferol o fawr (7.5 y cant) yn y garfan gyffredinol, gan arwain at y mesur targed yn aros yn ddigyfnewid. Felly mae cynnydd ym maint carfan Blwyddyn 2 yn ystyriaeth, yn ogystal â'r modd y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda mudiadau megis Mudiad Meithrin i greu'r pwynt cyswllt hollbwysig hwnnw i addysg Gymraeg.

Mae dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth i ni ym mhob cyfnod addysgol. Rhoddir sylw i nifer y disgyblion neu fyfyrwyr sy'n parhau i astudio Cymraeg Iaith Gyntaf a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth iddynt symud o un cyfnod allweddol i'r llall ar hyd eu gyrfa addysgol. Gofynnir i awdurdodau lleol nodi sut maent yn cynyddu cyfraddau dilyniant yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Gall consortia ddefnyddio Grant y Gymraeg mewn Addysg i drefnu hyfforddiant a gweithgarwch perthnasol i wella dilyniant ieithyddol. Cefnogir Hyrwyddwyr Dwyieithog ym mhob coleg addysg bellach i hyrwyddo dilyniant ieithyddol.

Mae'r gwaith yn parhau i hybu dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector Dysgu Seiliedig ar Waith. Drwy annog dysgwyr i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu, mae'n rhoi cyfle i'r unigolion gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio yn y gweithle yn y dyfodol. Yn ogystal, yn ddiweddar cynhaliwyd arolwg o'r angen am sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd, a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn fuan. Bydd canlyniadau'r arolwg yn ein helpu i gynllunio addysg ôl-16 er mwyn sicrhau bod sgiliau Cymraeg priodol gan bobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo i'r byd gwaith. Bydd y canlyniadau hefyd o fudd i'r sector cyngor gyrfaoedd wrth iddynt gynghori unigolion ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr.

O ran annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan bobl ifanc, mae gan Urdd Gobaith Cymru 50,000 o aelodau ar hyd a lled Cymru, gyda 962 o ganghennau yn darparu ymhell dros 200 o weithgareddau cymdeithasol yn flynyddol.

Un elfen o waith yr Urdd yw'r ochr gystadleuol. Mae dros 220 o ddigwyddiadau Eisteddfodol yn cael eu cynnal gan yr Urdd yn flynyddol, sy'n bwydo i mewn i'w prif Eisteddfod. Ar hyn o bryd, y prif enillwyr sydd yn derbyn tystysgrif ond mae'r Urdd yn bwriadu cynnig sticeri arbennig ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan er mwyn dangos gwerthfawrogiad o'u hymdrechion. Mae'n bwysig nodi hefyd fod ymchwil gan yr Urdd yn dangos bod y plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr eisteddfodau fwy neu lai yn cymryd rhan mewn o leiaf 3 gweithgaredd arall sy'n perthyn i'r Urdd. Maent felly yn cael eu meithrin yn ethos yr Urdd, sy'n sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin yn deg, gyda pharch ac yn cael ei annog i ddatblygu fel dinesydd.

Yn ogystal â gwaith yr Urdd, mae'r Llywodraeth hefyd yn noddi sawl grant a phrosiect arall sy'n cefnogi defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys ariannu prosiectau cerddoriaeth megis Cerdd Gymunedol Cymru, y Gwallgofiaid a Taith Ysgolion BBC Radio Cymru, yn ogystal â chefnogi gwaith y Ffermwyr Ifanc yng Nghymru. Un o brif brosiectau Ieuenctid yr Is-adran yw'r Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI). Amcan y prosiect hwn yw rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gyda chefnogaeth staff a disgyblion ysgolion a phartneriaid cymunedol / ieuenctid tebyg i'r Urdd a'r Mentrau Iaith. Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda sawl partner i weithredu'r prosiect hwn, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol.

I gloi, rwy'n ddiolchgar i chi fel Pwyllgor am eich sylwadau ac yn gwerthfawrogi eich adborth adeiladol. Edrychaf ymlaen at gyfarfod â chi drachefn yn ystod tymor yr haf er mwyn rhoi'r diweddaraf ichi am yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
CELG(4)-08-14 Papur 5b

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

3 Mawrth 2014

Annwyl Christine

**Craffu ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg**

Diolch am eich llythyr at Nick Ramsay dyddiedig 28 Ionawr 2014 yn gwahodd y Pwyllgor i drafod ein dull gweithredu o ran craffu ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg fel y mae'n berthnasol i'n cylch gwaith, a sut i wneud y Gymraeg yn rhan o brif ffrwd ein gwaith craffu.

Rydym yn croesawu eich blaengaredd yn hyn o beth ac rydym yn falch eich bod wedi codi'r mater gan nad yw'r Gymraeg wedi bod yn rhan amlwg o'n gwaith hyd yma.

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig prif-ffrydio'r iaith a bod angen i ddatblygu economaidd a'r Gymraeg symud ymlaen law yn llaw. Mae hynny'n wir, yn arbennig, yn y cadarnleoedd Cymraeg lle y mae trafnidiaeth a chyfleoedd economaidd yn brin ar hyn o bryd.

Rydym yn ymwybodol o rai mentrau yn y maes hwn, fel Ardaloedd Twf Lleol Dyffryn Teifi, Menter a Busnes ac adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd. Byddwn yn anelu at drafod y mentrau hynny dros y misoedd nesaf, a hefyd i gynnwys materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ein cwestiynau rheolaidd i'r Gweinidogion a thystion eraill yn ystod ein hymchwiliadau yn y dyfodol.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582
E-bost/Email: pwyllgor.menter@cymru.gov.uk

Diolch eto am ofyn ein barn ar y mater hwn.

Yn gywir



William Graham AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes